# Canllawiau technegol

# Fframwaith Mesur Perfformiad Meintiol

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu'r fframwaith perfformiad meintiol a gynigir o dan y cod ymarfer newydd. Eu bwriad yw disodli'r fframwaith presennol a gyhoeddwyd o dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y cod ymarfer newydd a'r fframwaith perfformiad a gwella cysylltiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020 a byddant yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2020-21 a thu hwnt.

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu'r canlynol:


1. Cyflwyniad
2. Egwyddorion cyffredinol
3. Canolbwyntio ar Wella
4. Casgliadau data ychwanegol
5. Metrigau
    - **5.1** Metrigau Perfformiad Oedolion
    - **5.2** Metrigau Perfformiad Plant a Phobl Ifanc
    - **5.3** Metrigau Perfformiad Gofalwyr
    - **5.4** Metrigau Perfformiad y Gweithlu


## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella yn cyflwyno cyfres newydd o safonau ansawdd sy'n sail i'r cod ymarfer. Mae'r safonau hyn yn darparu'r meincnod sylfaenol ar gyfer perfformiad awdurdodau lleol sy'n darparu gofal a chymorth i bobl Cymru. Er mwyn mesur ein cydymffurfiaeth â'r safonau hyn, bydd y fframwaith perfformiad a gwella yn defnyddio pob math o fethodolegau i gipio data ar ddarpariaeth gwasanaethau, llesiant a boddhad defnyddwyr, gan ddeall nad oes gan unrhyw fethodoleg unigol y gallu i ddarparu'n effeithiol y deallusrwydd busnes sydd ei angen ar sefydliadau i asesu a gwella eu perfformiad.

Nid yw'r mesuriadau meintiol yn y fframwaith perfformiad a gwella yn hollgynhwysol, ond maent wedi'u dylunio i roi syniad cyffredinol o'r system gyfan o'r brig i lawr ar lefel leol a chenedlaethol. Felly, mae lle i sefydliadau unigol ychwanegu at y fframwaith gyda mesuriadau lleol sy'n bwysig iddyn nhw ar unrhyw adeg.

Erbyn hyn, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn fwy aeddfed o lawer yn eu gallu a'u capasiti i gynhyrchu gwybodaeth rheoli perfformiad ystyrlon yn rheolaidd, gan alluogi sefydliadau i fonitro a chynllunio eu cynlluniau'n effeithiol. Bydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn galluogi Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i rannu a chydweithredu ar gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau perfformiad o safon uchel.

Mae'r mesuriadau a ddiffinnir yn elfen feintiol y fframwaith wedi'u diffinio mewn cydweithrediad â'r holl Awdurdodau Lleol ledled Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ynghyd â thrwy ymgynghoriad a chydweithrediad ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill.

Cyflawnwyd y gwaith datblygu ar y fframwaith gan grŵp ysgrifennu Cymru gyfan sy'n cynnwys arbenigwr perfformiad a gwybodaeth o bob un o'r saith rhanbarth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan bob elfen o'r fframwaith grŵp ysgrifennu pwrpasol sy'n gyfrifol am ddatblygu ei siâp, ei gynnwys ac, yn y pen draw, y canllawiau technegol sy'n disgrifio'r gofynion. Mae gan y grwpiau hyn, a reolir gan Lywodraeth Cymru, gysylltiad agos â'r Grŵp Deallusrwydd Busnes, sef grŵp rhannu a datblygu gwybodaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) sy'n darparu cysylltiad i bob awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd ag i randdeiliaid eraill megis AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru a chynrychiolwyr o'r trydydd sector.

Mae'r gwaith yn cael ei lywodraethu gan grŵp gweithredol sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r holl waith a gynhyrchir gan bob un o'r grwpiau ysgrifennu. Mae'r grŵp gweithredol yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, pennaeth gwasanaethau sy'n cynrychioli Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS) a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan (AWASH), ynghyd ag uwch reolwr o'r Arolygiaeth Gofal, Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

## 2. Egwyddorion Cyffredinol Mesur Perfformiad

Bydd mesuriadau meintiol yn ein galluogi i ddeall yn well y galw ar wasanaethau, ynghyd â dangos cydymffurfiaeth â Chodau Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r metrigau sydd wedi'u diffinio yn y fframwaith yn gyfrifiadau gweithgarwch sylfaenol, unochrog y gellir eu cyfuno i greu dangosyddion perfformiad sy'n galluogi mesur pwyntiau penodol yn y broses gofal a chymorth drwyddi draw.

Gellir cyrchu nifer sylweddol o ddangosyddion perfformiad o'r set ddata trwy gyfuno metrigau. Er eu bod yn ddefnyddiol fel mesuriadau procsi, mae gan Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ormod o sgîl-effeithiau annymunol i ddibynnu arnynt fel unig ffordd o fesur perfformiad da. Yn aml, mae DPA yn canolbwyntio gormod ar broses yn hytrach na chanlyniad, yn gyfyngedig o ran eu cwmpas ac mae angen gwaith ychwanegol arnynt i ddeall y rhesymau dros y ffigurau. Diben elfennau ansoddol ac ymchwil a thystiolaeth y fframwaith yw ychwanegu at yr elfen feintiol fwy traddodiadol trwy ddarparu mwy o fanylion, fel y gall awdurdodau lleol ddangos dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'u perfformiad.

Fodd bynnag, mae data meintiol yn wych am olrhain maint, datblygu tueddiadau, cofnodi gwahaniaethau amser, categoreiddio ac ateb cwestiynau syml. Mae'r fframwaith perfformiad a gwella yn diffinio dull symlach o gasglu a chyhoeddi gwybodaeth feintiol sy'n darparu gwell dirnadaeth a dealltwriaeth, gan alluogi sefydliadau i ddefnyddio'r wybodaeth honno'n well i wella gwasanaethau.

O dan y cod ymarfer newydd, bydd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i boblogi a dychwelyd y data y gofynnir amdano yn y canllawiau technegol yn flynyddol, gan ddilyn yr un egwyddorion â'r casgliad presennol. Nid yw'r codau ymarfer newydd yn cynnwys metrigau a dangosyddion perfformiad yn uniongyrchol mewn deddfwriaeth; yn hytrach, maent yn nodi bod cydymffurfiaeth â'r canllawiau technegol yn **orfodol**. Mae hyn yn ein galluogi i ymateb i newidiadau mewn galw ac anghenion mewn ffordd fwy hyblyg o lawer, gan ein galluogi i barhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a mireinio unrhyw fesuriadau yn y fframwaith heb orfod diwygio deddfwriaeth.

## 2.1 Oedolion, Plant a Gofalwyr

Mae'r safonau ansawdd wedi'u hysgrifennu gan gyfeirio'n benodol at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 nad yw bob amser yn gwahaniaethu rhwng oedolion, plant a gofalwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwahanol grwpiau demograffig wrth fesur darpariaeth ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i'r bobl hyn.

Gall unrhyw un o'n safonau ansawdd gael eu rhoi ar waith mewn perthynas â'r holl bobl rydym yn gweithio gyda nhw, ond rhaid iddynt allu canolbwyntio hefyd ar agweddau penodol ar ofal a chymorth, beth bynnag fo nodweddion yr angen, y gwasanaeth neu'r bobl rydym yn bwriadu eu mesur. Bydd y metrigau eu hunain bob amser yn canolbwyntio ar y grŵp demograffig y maent yn bwriadu ei fesur.

At ddibenion casglu, mae'r cyfarwyddiadau canlynol yn berthnasol:

- Mae ***Oedolyn*** yn golygu person 18 oed neu hŷn;
- Mae ***Plentyn neu Berson Ifanc*** yn golygu person o dan 18 oed **neu** oedolyn ifanc rhwng 18 a 25 oed a oedd yn arfer derbyn gofal;
- Mae ***Gofalwr*** yn golygu person o unrhyw oedran sydd â chyfrifoldebau gofalu dros berson arall;

## 2.2 Diffinio'r rhesymau dros fesur

Mae'n bwysig ein bod ni'n diffinio ***pam*** rydym yn casglu gwybodaeth am yr agweddau penodol hyn ar y gwaith a sut mae'n helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddeall y meddylfryd y tu ôl i bob metrig, gan helpu i fesur llwyddiant Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd gan bob metrig ddiffiniad cynhwysfawr a fydd yn egluro beth i'w gynnwys a beth i beidio â'i gynnwys wrth gyfrif pob metrig, a bydd hefyd yn egluro'r sail resymegol dros gasglu ac, os yn bosibl, ei gysylltiad â'r gofyniad a amlinellir yng nghodau ymarfer y Ddeddf.

Bydd y diffiniadau llawn ar gyfer pob metrig yn cael eu cwblhau trwy ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid a'u rheoli gan Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol y Grŵp Deallusrwydd Busnes. At ddiben ymgynghori, rydym wedi cynnwys diffiniad rhannol sy'n cynnwys y sail resymegol dros gasglu.

### 2.3 Diffinio ffiniau ar gyfer y casgliad meintiol

Mae nifer enfawr o fetrigau a dangosyddion perfformiad y gellid bod wedi eu cynnwys yn y fframwaith meintiol, ond roedd rhaid i ni sicrhau bod y dyluniad yn ymarferol a defnyddiol. Yn ystod y broses ddylunio, buom yn gweithio gyda nifer sylweddol o randdeiliaid, ac roedd gan bob un ohonynt restr benodol o fesuriadau yr oeddent eisiau eu gweld yn y fframwaith. Cafodd pob un o'r rhain eu hystyried yn ofalus, ond ni chafodd pob un o'r awgrymiadau hyn eu derbyn gan y Grŵp Ysgrifennu Meintiol a oedd yn gyfrifol am ddylunio'r rhan hon o'r fframwaith. Ar y cyfan, roedd y ffaith bod cymaint o fesuriadau wedi'u hawgrymu yn golygu ei bod hi bron yn amhosibl eu cynnwys nhw i gyd, ond ystyriodd y grŵp amryw o ffactorau eraill a oedd yn sail i ddylunio'r metrigau terfynol. Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

- Rhaid bod modd eu casglu
- Rhaid bod modd eu cymharu
- Ni ddylent fod yn rhai a oedd yn symud yn araf (h.y. ychydig iawn o newid o un flwyddyn i'r llall)
- Ni ddylent rwystro ymarfer er lles y mesuriad (ychwanegu llawer o focsys i'w ticio dim ond er mwyn casglu data)
- Dylent ddangos yr agweddau pwysicaf ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol
- Ni ddylent gael eu cynnwys os ydynt ar gael yn rhywle arall
- Mae angen iddynt ddangos mai'r ffordd orau i'w casglu yw trwy fethodolegau meintiol
- Mae angen iddynt fod yn briodol i'w cynnwys yn yr hirdymor
- Rhaid iddynt fod yn ddefnyddiol

Yn ogystal â hyn, mae cyfyngiad ar yr adnoddau sydd gan awdurdodau lleol i gasglu, prosesu a dadansoddi gwybodaeth. Ar y cyfan, rhaid bod modd i awdurdodau lleol gyflawni'r fframwaith gyda'r adnoddau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Byddai fframwaith rhy fawr yn golygu na fyddai modd casglu'r holl wybodaeth hon.

### 2.4 Casglu a Chyflwyno

Rhagwelir y bydd y wefan rhannu data ddiogel Afon yn parhau i gael ei defnyddio gan Awdurdodau Lleol i lawrlwytho'r adnoddau a'r canllawiau ac i gyflwyno data i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob cylch casglu blynyddol. Bydd cyfres newydd o adnoddau cyflwyno yn cael eu datblygu sy'n cydymffurfio â gofynion y canllawiau technegol ac yn cael eu rhyddhau gyda'r canllawiau terfynol.

Un datblygiad newydd fydd cynnwys adran benodol ar gyfer cofnodi eithriadau yn y data. Er y byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddatblygu'r canllawiau technegol i fod

mor ystyrlon a chywir â phosibl, nid oes modd i ni ragweld pob canlyniad posibl. Dylai galluogi awdurdodau lleol i gofnodi eu heithriadau yn ystod y broses casglu a chyflwyno olygu bod data mwy cywir a chyson yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd yr adnodd cyflwyno yn defnyddio'r wybodaeth hon i gofnodi effaith yr eithriadau hyn ar y canlyniad cyffredinol ac i alluogi KAS i bennu a yw'r eithriad yn gywir neu a oes angen ei wrthdroi. Yna, gall gwybodaeth am yr eithriadau hyn gyfrannu at y canllawiau technegol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

### 2.5 Rhannu Gwybodaeth

Dangosodd ein dadansoddiad o ofynion awydd cryf i wella galluoedd rhannu gwybodaeth ymysg awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Am y tro cyntaf, rydym yn gobeithio datblygu prosesau sy'n hwyluso rhannu data a deallusrwydd mewn ffordd fwy ystyrlon o lawer trwy alluogi awdurdodau lleol i gael mynediad at ddata metrig ei gilydd a sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu gweld y data hwn. Bydd y cytundeb data agored hwn yn galluogi sefydliadau i gael mynediad at ddata cymharol sy'n ddefnyddiol wrth geisio deall sut mae awdurdodau lleol yn cymharu ar draws y system darparu gofal cymdeithasol. Lle bo hynny'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn normaleiddio data fel bod modd ei gymharu'n uniongyrchol ar draws awdurdodau lleol. Ni fydd y data hwn yn cael ei rannu'n gyhoeddus. Bydd y dadansoddiad terfynol o ddata yn yr haen sydd ar gael i bawb.

### 2.6 Cynnal Dadansoddiad Ystyrlon

Er bod Metrigau yn darparu data sylfaenol ystyrlon ar faint a llif, nid ydynt yn mesur perfformiad. Ar gyfer hyn, mae angen i ni brosesu'r data ymhellach. Mae'r fframwaith wedi'i ddylunio fel y gellir cyfuno metrigau penodol i greu amryw o ddangosyddion perfformiad.

Yn y gorffennol, mae cyfres sefydlog o ddangosyddion perfformiad wedi'i rhagnodi i awdurdodau lleol a'i defnyddio i fesur llwyddiant. Er y gall hyn greu dull cyson, nid dyma'r ffordd orau o hyrwyddo gwelliant cadarn a chynaliadwy o reidrwydd. Mae mesuriadau gosod yn galluogi ffocws ar feysydd gwaith penodol, ond mae dull system gyfan yn anghynaliadwy oherwydd nifer y mesuriadau y byddai angen eu cyflwyno. O ganlyniad, mae'r nifer fach o fesuriadau sydd ar waith yn pwysleisio rhannau penodol o'r busnes ar draul eraill sydd yn aml heb ddatblygu digon oherwydd bod yr holl adnoddau a sylw yn cael eu rhoi i'r meysydd sy'n cael eu mesur.

Yn ogystal, mae'r dull tabl o fesur perfformiad cymaradwy yn gallu bod yn wrthgynhyrchiol gan nad yw'r canlyniad yn cael ei roi yn ei gyd-destun. Gall hyn arwain at y mesuriad perfformiad yn dod yn fesuriad llwyddiant de facto yn hytrach nag ansawdd cyffredinol y gwasanaeth a ddarperir. Oherwydd hyn, gall cynllunwyr a rheolwyr gael eu cyhuddo o fod yn unllygeidiog h.y. ail-ddylunio gwasanaethau er

mwyn cael gwell canlyniad yn y dangosydd, yn hytrach na gwella darpariaeth a chanlyniadau.

Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio canolbwyntio ar yr hyn mae'r data'n ei ddweud wrthym a'r hyn sy'n bwysig ar y pryd. Bydd yr hyblygrwydd ychwanegol hwn yn golygu bod modd datblygu darlun mwy ystyrlon a chadarn o ofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau ansoddol ac ymchwil a thystiolaeth y fframwaith.

Wrth symud tuag at y dull hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyfuno rhai o'r cyhoeddiadau perfformiad presennol fel bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei gyflwyno mewn ffordd fwy defnyddiol.

Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio data yn eu gweithdrefnau perfformiad a gwella lleol eu hunain fel y gall mecanweithiau adrodd perfformiad rheolaidd sy'n rhan o ymarfer o ddydd i ddydd gael eu hategu gan ddata ychwanegol.

## 3. Canolbwyntio ar Wella

Mae'r ffocws ar wella yn newydd i'r codau ymarfer. Dylai tair elfen y cod ymarfer ddod ynghyd i ddarparu deallusrwydd busnes cadarn ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y gwir brawf yw ein gallu i ddefnyddio'r deallusrwydd hwn i lywio ein siwrnai tuag at well ymyrraeth gynnar ac atal, yn ogystal â darpariaeth gofal a chymorth.

Mae'r cysyniad hwn yn llawn mor berthnasol i'r ffordd rydym yn casglu, prosesu a defnyddio data i lywio'r siwrnai honno. Ychydig iawn o werth sydd i ddata heb ddealltwriaeth. Y ddealltwriaeth o'r hyn mae'r data'n ei ddweud wrthym sy'n darparu'r gwerth i sefydliad. Mae ein dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o'r stori mae'r data'n ei ddweud wrthym yn darparu sail hollbwysig ar gyfer gwneud newidiadau cadarnhaol, ac mae'n rhaid i ni geisio gwella'r sail honno o hyd.

Ethos y fframwaith newydd hwn yw peidio â defnyddio canlyniad mesur fel unig fesur perfformiad da. Syniad cyfyngedig yn unig o ba mor dda mae sefydliad yn perfformio mewn un agwedd ar waith a geir yn y canlyniadau hyn. Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar ofyn sut gallwn ddarparu gofal cymdeithasol yn well yng Nghymru.

Cyfres o arwyddion yn y bôn yw unrhyw fesuriadau sy'n deillio o'r metrigau, a dylent weithredu fel sbardun i awdurdod balu'n ddyfnach i'r data i gael y darlun mwy cyflawn sy'n angenrheidiol i ysgogi newid ystyrlon a chynaliadwy. Gellid gwneud hynny trwy ddiffinio metrigau a mesuriadau lleol ychwanegol neu drwy ddulliau dadansoddi ansoddol neu drwy ddefnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd ar gael. Lle bo hynny'n bosibl, dylai fod yn gyfuniad o'r elfennau hyn i adeiladu'r ddealltwriaeth fwyaf cyflawn posibl.

Y gobaith yw y bydd adroddiad y Cyfarwyddwr yn darparu'r cyfrwng i awdurdodau lleol roi darlun cyffredinol o sut maent yn perfformio, gan ddefnyddio'r tair elfen yn y

cod ymarfer yn erbyn y safonau ansawdd i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella. Dylai'r hunanasesiad blynyddol hwn roi syniad gonest a chyfannol o ymarfer mewn sefydliad sy'n dangos meysydd o arfer da a meysydd lle mae hi wedi bod yn anodd cyflawni perfformiad da yn gyson. Dylai nodi hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud i ddeall a gwella'r meysydd hyn. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn asesu ansawdd Adroddiad y Cyfarwyddwr, a gall ddefnyddio cynnwys yr hunanasesiad hwn fel gwaelodlin mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliadau presennol sydd wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Adroddiad y Cyfarwyddwr yn cyfateb yn union i'n dyheadau newydd, a bydd gwaith i alinio'r gwaith hwn â'r cod ymarfer newydd yn cychwyn fel rhan o gyfnod dau yn narpariaeth y fframwaith newydd hwn.

## 4. Casgliadau Data Ychwanegol

Nid yw'r Fframwaith Mesur Perfformiad presennol a amlinellir yn y cod ymarfer presennol yn ystyried amryw o gasgliadau ychwanegol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cwblhau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ariannol. Mae'r casgliadau hyn fel a ganlyn:

- Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal
- Diogelu Oedolion
- Staff adrannau awdurdod lleol (ffurflenni STF)
- Cofrestri anabledd (SDA900 ac SDA901)
- Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth
- Data Cyfunol Oedolion a Phlant

Ar wahân i'r data cyfunol sydd bellach wedi'i ddisodli gan y metrigau newydd, rydym yn cynnig y dylai casgliadau plant aros yr un fath i'r dyfodol gan fod y data a gesglir fel rhan o'r casgliadau hyn yn para'n hir ac yn darparu manylion ychwanegol sy'n sail i'r metrigau newydd. Ystyrir bod casgliadau oedolion, fodd bynnag, ychydig yn hen ffasiwn ac yn methu â chasglu lefel y manylder mae partneriaid yn cytuno sy'n ofynnol i hyrwyddo dadansoddiad ystyrlon a gwelliant o ganlyniad i hynny.

Aeth Llywodraeth Cymru ati'n ddiweddar i gynnig Cyfrifiad Anabledd i ddisodli'r ffurflenni SSDA 900 ac SSDA 901. Cafodd y cynnig hwn ei wrthod gan awdurdodau lleol gan eu bod o'r farn nad oedd yn addas i'r diben gan nad oedd y mesuriad anabledd yn cyfateb i gasgliadau eraill ac oherwydd dyblygiad ymdrech.

Rydym yn argymell y dylid cyflwyno cyfrifiad Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth newydd a fydd yn adlewyrchu'r cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth, yn disodli'r cofrestri anabledd presennol ar gyfer oedolion (SSDA900/901) ac yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ar y gofal a'r cymorth a dderbynnir gan oedolion yng Nghymru, gan gynnwys data ar anabledd. Er ein bod ni o'r farn bod hwn yn gam ymlaen o ran casglu data ar oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth, mae gofynion a dyluniad y cyfrifiad hwn y tu allan i gwmpas y darn hwn o waith, a byddai angen ei ddatblygu ar wahân. Fel gyda phlant, bydd y data cyfunol ar gyfer oedolion yn cael ei ddisodli gan y metrigau arfaethedig.

Bydd y ffurflen staffio (ffurflenni STF) yn aros yr un fath hefyd, ond rydym yn argymell y dylid gwella a diweddaru'r ffurflen hon i gynnwys gwybodaeth am salwch a mwy o fanylion am recriwtio a chadw. Y gobaith yw y gall y metrigau ar gyfer elfen Gweithlu y fframwaith ddeillio'n uniongyrchol o'r ffurflen STF, gan osgoi dyblygiad. Rydym yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddiffinio'r eitemau data gofynnol ac ail-ddylunio'r ffurflen. Bydd gwaith ar hyn yn cael ei gwblhau mewn ymgynghoriad â phartneriaid yng nghyfnod 2 y gwaith hwn.

## 5. Metrigau

Mae'r metrigau a gynigir yng ngweddill y canllawiau hyn yn cynrychioli'r gwaith a gynhyrchir gan y Grŵp Ysgrifennu Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Perfformiad Meintiol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys gweithiwr gwybodaeth proffesiynol ag arbenigedd mewn gofal cymdeithasol o bob un o'r rhanbarthau yng Nghymru. Mae'r grŵp wedi gweithio'n galed dros y 18 mis diwethaf i ddatblygu cyfres newydd o fertigau sy'n addas ar gyfer y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ac a ddylai fod yn sail i awdurdodau lleol yn mesur perfformiad yn erbyn eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

Mae'r metrigau a'r mesuriadau y gellir eu datblygu bellach yn elfen o ran rheoli eu perfformiad ac ysgogi gwelliant. Nid mesur popeth yw eu bwriad. Rhoddwyd ystyriaeth i ba rannau o'r busnes y dylid eu mesur gan ddefnyddio methodolegau meintiol. Mae'r cod ymarfer newydd ar gyfer perfformiad a gwella yn nodi'r disgwyliad y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio holl elfennau'r fframwaith i ddeall perfformiad eu swyddogaethau gofal cymdeithasol a sut gallant ddefnyddio'r wybodaeth honno  i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd angen gofal a chymorth, ynghyd â darparu gwasanaeth cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.

Mae'r metrigau sydd wedi'u cynnig yn gyfres o fesuriadau sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac sydd wedi'u dylunio i fod yn hyblyg. Gall metrigau gael eu mireinio, eu hychwanegu neu eu dileu yn dibynnu ar anghenion y busnes.

Bydd awdurdodau lleol yn gyfarwydd â llawer o'r metrigau sydd wedi'u cynnig. Nid oes llawer o gynnwys newydd yn yr argraffiad cyntaf hwn. Bydd hyn yn galluogi pontio di-dor i'r fframwaith newydd heb orfod gwneud llawer o waith yn addasu systemau a phroses i allu casglu'r data. Fodd bynnag, mae yna rai ychwanegiadau hefyd, ynghyd â gwaith mireinio pellach ar ddangosyddion presennol, mwy o ffocws ar ofalwyr ac elfen gweithlu newydd sy'n cynnwys data ar salwch staff.

Byddwn yn cyhoeddi cyfres derfynol o fertigau a chanllawiau, diffiniadau ac adnoddau casglu cysylltiedig yn gynnar yn 2020, yn barod ar gyfer y cyfnod casglu cyntaf ym mis Ebrill 2020. Byddwn yn rhoi mecanweithiau ar waith hefyd i adolygu'r fframwaith yn gyson fel ei fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol.

## 5.1 Rhestr o Fetrigau arfaethedig – Oedolion

| **1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/001 | Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdod lleol i gipio gwybodaeth am alw. Mae'n mesur y rhai sy'n dod trwy'r drws ffrynt. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn galluogi sefydliadau i ganfod a darparu adnoddau ar gyfer yr elfen honno o'r gwasanaeth yn effeithiol. |
| <br><br>AD/002a<br><br>AD/002b<br><br>AD/002c | O'r rheini:<br><br>y nifer a gafodd eu helpu trwy ddarparu gwybodaeth yn unig<br><br>y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy<br><br>y nifer a gafodd eu sgrinio allan gan eu bod yn anghymwys ar gyfer IAA | Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy (IAA) yn hollbwysig i lwyddiant y pontio i'r system gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r metrig hwn yn edrych ar y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA, a sut cawsant eu helpu (a oedd angen asesiad ai peidio). |
| AD/003 | Nifer y cysylltiadau *(AD/002a+b)* i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 335 yn nodi, *Rhaid i'r gwasanaeth (IAA) ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, priodol ac amserol o safon uchel*. |
| <br><br><br>AD/004a<br>AD/004b | Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn *(AD/001)* a dderbyniwyd gan<br><br>Aelod o'ch teulu neu chi'ch hun<br>Ffrind neu gymydog | Mae gwybod pwy sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae pobl yn cael mynediad at y gwasanaeth IAA. Mae gwaith gydag asiantaethau partner i nodi'r galw a llwybrau i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol yn darparu ar gyfer gwell gwaith cynllunio a chanfod a darparu |

| | | |
|---|---|---|
| AD/004c<br>AD/004d<br>AD/004e<br>AD/004f<br>AD/004g<br>AD/004h<br>AD/004i<br>AD/004j<br>AD/004k | Iechyd<br>Addysg<br>Yr Heddlu<br>Y Gwasanaeth Prawf<br>Tai<br>Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal<br>Sefydliad trydydd sector<br>Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)<br>Arall | adnoddau rhwng sefydliadau i sicrhau bod y bobl iawn yn cael y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. |
| AD/005 | Nifer y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cyngor a Chynhorthwy wedi'u darparu yn ystod y 12 mis blaenorol | Gall fod sawl rheswm dros gysylltu â'r gwasanaeth IAA dro ar ôl tro. Gallai fod bod anghenion person wedi cynyddu, bod eu hanghenion yn wahanol neu nad oeddent yn fodlon â'r cyngor neu'n cynhorthwy a gawsant yn y lle cyntaf.<br><br>Mae'r gwasanaeth IAA yn cael ei ystyried fel gwasanaeth ataliol ynddo'i hun. Dylai niferoedd uchel o gysylltiadau ailadroddol beri i sefydliad ymchwilio ymhellach gan y gallai awgrymu gwasanaeth nad oedd yn gallu darparu ymyrraeth gynnar ac atal o safon uchel yn y pwynt cyswllt cyntaf. |
| **2. Asesiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/006 | Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd gan y gwasanaeth IAA yn ystod y flwyddyn<br>*(= AD/002b)* | Mae nifer y bobl a oedd angen neu a ofynnodd am asesiad o gymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn rhoi syniad o anghenion gofal cymdeithasol cyffredinol y boblogaeth mewn ffordd gymesur, o'u normaleiddio fel cyfradd i bob 10,000 o gyfanswm y boblogaeth.<br><br>Mae olrhain y wybodaeth hon yn ein galluogi i weld a yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn cynyddu. |
| <br><br>AD/007a<br><br>AD/007b<br>AD/007c<br>AD/007d<br><br>AD/007e<br><br>AD/007f<br><br>AD/007g | O'r rheini, y nifer lle:<br><br>Roedd angen asesiad mwy cynhwysfawr (a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth<br>Roedd y broses amddiffyn oedolion wedi cychwyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 116 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddwyd ar yr offeryn asesu a chymhwystra. Ym mhob achos,* ***rhaid*** *i'r cofnod o'r asesiad gynnwys esboniad o sut bydd y camau gweithredu a argymhellir yn helpu i sicrhau'r canlyniad a nodwyd neu'n diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad.*<br><br>Mae deall sut mae unigolion yn cael eu helpu yn ystod y broses asesu yn allweddol i ddealltwriaeth awdurdodau lleol o sut mae eu gweithrediadau asesu yn gweithio. Bydd cymhariaeth ar draws Cymru yn dangos unrhyw wahaniaethau yng nghanlyniad yr asesiad ymysg y 22 awdurdod lleol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau ataliol a sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio asedau cymunedol i gyflawni canlyniadau pobl sydd eisiau help a chymorth gan y gwasanaeth IAA. |
| <br><br><br>AD/008a<br>AD/008b | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd *(AD/006)* yn ystod y flwyddyn lle:<br><br>Roedd tystiolaeth o gynnig gweithredol y Gymraeg<br>Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 52 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a dylid holi'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*<br><br>Mae'r cynnig gweithredol yn sicrhau bod yr unigolyn yn rhan |

| | | |
|---|---|---|
| | | annatod o'r broses. Dylai'r cysyniad o gynnig gweithredol y Gymraeg gael ei ddefnyddio i sicrhau bod anghenion cyfathrebu unigolion nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu hystyried yn gyfartal. |
| <br><br>AD/009a<br>AD/009b<br>AD/009c<br><br><br>AD/009d | Nifer yr asesiadau *(AD/006)* a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:<br><br>Lle mae tystiolaeth o gynnig eiriolaeth<br>Lle gofynnodd yr unigolyn neu'r teulu am eiriolwr<br>Lle ystyriodd gweithiwr proffesiynol fod eiriolaeth yn angenrheidiol i gynrychioli dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn effeithiol<br>Lle'r oedd darparu eiriolwr yn angenrheidiol o dan y gyfraith | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Paragraff 18 yn nodi, *Mae'n **rhaid** i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn fel partneriaid cyfartal. Mae'n **rhaid** i hyn gynnwys galluogi unigolyn i nodi ei fod eisiau cymorth gan rywun arall wrth bwyso a mesur ei opsiynau a gwneud penderfyniadau am ei ganlyniadau llesiant.*<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 53 yn nodi, ***Rhaid** i awdurdod lleol sicrhau bod yr holl drefniadau asesu lleol ac arbenigol yn cydymffurfio â'r gofynion hollgyffredinol yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (gweler y cod ar gyfer rhan 2) a rhaid iddo ystyried yr egwyddorion canlynol hefyd:*<br>• *darparu gwybodaeth am gael cymorth eiriolwr lle mae angen er mwyn galluogi'r unigolyn i fod yn bartner cyfartal yn y broses.* |
| AD/010 | Nifer yr asesiadau lle darparwyd eiriolwr | Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, gan alluogi gwell cynllunio a chomisiynu i'r dyfodol. Ar lefel genedlaethol, byddai'r metrig hwn yn dangos unrhyw wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru o'i gymharu |

| | | |
|---|---|---|
| | | ag AD/010. |
| AD/011 | Nifer yr asesiadau y gofynnodd yr unigolyn neu ei deulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 97 yn nodi, *Pan fo canlyniadau personol wedi newid, neu anghenion neu amgylchiadau'r unigolyn neu'r teulu wedi newid,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol gydsynio â cheisiadau i adolygu asesiadau.* ***Rhaid*** *i'r cais hwn gael ei wneud gan yr unigolyn ei hun, gan bobl â chyfrifoldeb rhiant am blentyn, gan bobl â hawliau cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn, neu gan rywun y mae'r unigolyn wedi'i enwi fel ei eiriolwr ar gyfer y broses asesu.* |
| <br><br>AD/012a<br>AD/012b<br>AD/012c<br>AD/012d<br><br>AD/012e<br><br>AD/012f<br><br>AD/012g | O'r rheini, y nifer lle:<br><br>Nad oedd unrhyw gostau cymwys i'w talu (NFA)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth<br>Roedd y broses amddiffyn oedolion wedi cychwyn | Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn egwyddor allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r gallu i wasanaethau cymdeithasol ddarparu'r gwasanaeth iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn yn hollbwysig i sicrhau nad yw anghenion yn mynd heb eu diwallu yn y pwynt cyswllt cyntaf, gan gynyddu'r risg o anghenion yn mynd heb eu diwallu neu'n cynyddu ymhellach. Gall nifer fawr o ailasesiadau ddangos bod y gwasanaeth angen archwiliad beirniadol pellach i sicrhau ei fod yn gallu ymateb i anghenion yn y pwynt cyswllt cyntaf. |
| **3. Ymyrraeth Gynnar ac Atal** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/013 | Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) |

| | | |
|---|---|---|
| | | Paragraff 182 yn nodi, *Mae ail-alluogi yn gallu bod yn elfen allweddol o wasanaethau ataliol. Mae mynediad amserol, uniongyrchol at wasanaethau ail-alluogi a dargedir yn helpu pobl, gan gynnwys plant, i gynnal eu gallu dros dymor hir.*<br><br>Diben gwasanaethau ataliol yw galluogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain fel y gallant gynnal y gallu hwn dros yr hirdymor, gan negyddu neu ohirio cyfraniad gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae ail-alluogi llwyddiannus yn lliniaru'r angen am gyfraniad costus iechyd a gofal cymdeithasol ac yn darparu gwell canlyniad ar gyfer y defnyddiwr gwasanaethau.<br><br>Mae'r metrig hwn yn cael ei ddefnyddio mewn cydweithrediad ag AD/016-AD/017 i ddeall y swyddogaeth hon yn well. |
| AD/014 | Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | Mae cyfran y rhai a gafodd gynnig ail-alluogi sy'n cwblhau'r pecyn cymorth a gynigiwyd yn rhoi syniad i ni o iechyd y broses. Dylai'r ffaith bod cyfradd uchel o bobl yn gadael annog awdurdodau lleol i ymchwilio ymhellach. |
| <br><br>AD/015a<br>AD/015b<br>AD/015c | O'r rheini, y nifer a:<br><br>Leihaodd yr angen am gymorth<br>Cynhaliwyd yr angen am yr un lefel o gymorth<br>Lliniarodd yr angen am gymorth | Y tu allan i ganlyniadau personol, mae lefel y cymorth sydd ei angen ar berson yn darparu mesuriad eang o lwyddiant gwasanaethau ail-alluogi. Dylai cyfran uchel o oedolion sy'n cwblhau ail-alluogi gyda'r angen am ofal a chymorth wedi'i gynnal (neu ei gynyddu) ysgogi ymchwiliad pellach gan awdurdodau lleol. |
| | Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: | Mae'r metrig hwn yn ein galluogi i gael gwell darlun o'r angen y gellir ei ddiwallu trwy ddefnyddio gwasanaethau ataliol sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| AD/016a<br><br>AD/016b | Darparwyd gwasanaeth a ddarperir neu a gomisiynir yn fewnol i atal yr angen rhag cynyddu<br>Atgyfeiriwyd yr unigolyn at wasanaethau ataliol | galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i fesur y rhai sydd ar yr ymylon o ran angen gofal a chymorth. |
| AD/017 | Cyfanswm yr asesiadau therapi galwedigaethol a gwblhawyd | Mae Adran 34 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi enghreifftiau o sut gall awdurdodau lleol ddiwallu anghenion a nodir trwy asesiad. Mae therapi galwedigaethol yn enghraifft y cyfeirir yn benodol ati yn y Ddeddf. |
| <br><br>AD/018a<br>AD/018b | O’r rheini, y nifer:<br><br>Â chynllun gofal a chymorth cyfredol ar waith<br>Lle nad oes cynllun gofal a chymorth cyfredol ar waith | Mae’r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i bennu nifer yr unigolion a gynorthwywyd trwy ddarparu therapi galwedigaethol fel gwasanaeth ataliol a faint a dderbyniodd therapi galwedigaethol fel rhan o’u cynllun gofal a chymorth. |
| **4. Cynlluniau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/019 | Nifer yr oedolion â chynlluniau gofal a chymorth ar 31 Mawrth | Mae’r metrig hwn yn ein galluogi i gael darlun o’r angen am ofal a chymorth ar gyfer oedolion ledled Cymru. Dros amser, bydd yn pennu a oes angen gofal a chymorth ar gyfran fwy neu lai o bobl.<br><br>Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gymharu lefel yr angen yn eu hardal â’r lefel mewn ardaloedd eraill yng Nghymru (bydd data’n cael ei normaleiddio i gyfraddau i bob 10,000 er mwyn hwyluso’r cymharu). Gall data ar yr anghenion gofal a chymorth fesul ardal gael ei ddefnyddio mewn cydweithrediad â setiau data eraill i bennu llesiant y genedl. |
| AD/020 | Cyfanswm yr oedolion ag anghenion gofal a chymorth cymwys a gefnogir gyda Thaliadau Uniongyrchol ar 31 Mawrth | Un egwyddor sylfaenol sy’n sail i’r gwaith o baratoi a darparu cynlluniau gofal a chymorth yw y dylai fod gan Unigolion yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | opsiwn o dderbyn taliadau uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae hwn yn fecanwaith pwysig lle gall unigolion neu deuluoedd ymarfer llais, dewis a rheolaeth. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i ddarparu taliadau uniongyrchol o dan adran 51 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gallant fod ar gyfer rhai neu bob un o'r anghenion gofal a chymorth sydd wedi'u nodi. Gall taliad uniongyrchol gynnwys mecanwaith arloesol neu unigryw i gyflawni canlyniadau llesiant yr unigolyn, a dim ond lle mae hi'n glir na fyddai'n cyflawni'r canlyniadau gofynnol y gellir ei wrthod.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 136 yn nodi, ***Rhaid** i awdurdodau lleol hyrwyddo hunanreolaeth a cheisio gwella annibyniaeth trwy alluogi pobl i wneud cyfraniad gweithredol at y broses o lywio eu gofal a'u cymorth. Wrth ddatblygu a darparu taliad uniongyrchol, **rhaid** i awdurdod lleol annog a helpu pobl i bennu eu canlyniadau personol eu hunain a'r gofal a'r cymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r rhain, gan ystyried eu rhwydweithiau cymorth presennol. **Rhaid** i bobl gael eu hannog i ddod o hyd i ffyrdd creadigol, hyblyg ac arloesol i gyflawni eu canlyniadau personol.* |
| **5. Darparu Gwasanaethau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| | Nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth sy'n derbyn cymorth gan un neu fwy o'r gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn: | Mae darparu gwasanaethau yn allweddol o ran helpu i ddarparu gofal a chymorth i oedolion sydd angen gofal a chymorth. |

| | | |
|---|---|---|
| AD/021a<br>AD/021b<br>AD/021c<br>AD/021d<br>AD/021e<br>AD/021f<br>AD/021g<br>AD/021h<br>AD/021i<br>AD/021j<br>AD/021k<br>AD/021l<br>AD/021m<br>AD/021n<br>AD/021o<br>AD/021p<br>AD/021q<br>AD/021r | Gofal Cartref<br>Gofal Dydd<br>Gofal Seibiant<br>Ail-alluogi<br>Taliadau Uniongyrchol<br>Pryd ar Glud<br>Cyfarpar<br>Addasiadau<br>Llety â Chymorth<br>Llety Gwarchod<br>Lleoliadau Oedolion<br>Therapi Galwedigaethol<br>Cartrefi gofal heb elfen nyrsio<br>Cartrefi gofal ag elfen nyrsio<br>Eiriolaeth<br>Technoleg Gynorthwyol, gan gynnwys Teleofal<br>Hamdden a gweithgareddau dysgu gydol oes<br>Unrhyw wasanaeth cymorth arall | Mae deallusrwydd ynghylch y mathau o wasanaeth a'r galw amdanynt yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn fwy effeithlon, yn fewnol ac yn fasnachol.<br><br>Mae'r metrig hwn yn darparu'r dadansoddiad mwyaf sylfaenol o alw yn ôl y math o wasanaeth. Y bwriad yw iddo fod yn drosolwg lefel uchel y gellir ei ddefnyddio i arwain darpariaeth leol, ynghyd â chael ei agregu i lefel genedlaethol a defnyddio elfen i gyfrifo'r defnydd o wasanaethau gan y boblogaeth gofal cymdeithasol, ynghyd â'r boblogaeth genedlaethol.<br><br>Mae mwy o fanylion am oedran a rhyw yn y ffurflen gyflwyno sydd ar gael i'w defnyddio gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, gan alluogi archwiliad manylach o'r galw am wasanaethau yng Nghymru. |
| <br><br><br><br><br>AD/022a<br>AD/022b<br>AD/022c<br>AD/022d | Ar gyfer gwasanaethau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, cyfanswm y diwrnodau mae oedolion yn gorfod disgwyl rhwng cwblhau'r asesiad a chychwyn gwasanaeth a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth, lle mae'r gwasanaeth hwnnw yn:<br><br>Ofal Preswyl<br>Gofal Cartref<br>Therapi Lleferydd ac Iaith<br>Therapïau Seicolegol | Mae gwasanaethau sydd ag amseroedd aros hir yn gallu cael effaith andwyol ar allu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Gall amseroedd aros rhy hir arwain at newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n gofyn am adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth i ailasesu'r ffordd fwyaf priodol o ddiwallu anghenion yr unigolyn.<br><br>Bydd gwybodaeth am amseroedd aros yn galluogi awdurdodau lleol i ennill gwell dealltwriaeth o'r galw am wasanaethau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br><br>AD/023a<br>AD/023b<br>AD/023c<br>AD/023d | Cyfanswm y gwasanaethau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn lle mae'r gwasanaeth hwnnw yn:<br><br>Ofal Preswyl<br>Gofal Cartref<br>Therapi Lleferydd ac Iaith<br>Therapïau Seicolegol | Deall y galw am wasanaethau penodol.<br><br>Mae'r metrig hwn yn galluogi amseroedd aros cyfartalog ar gyfer y gwasanaethau hyn i gael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r metrig uchod. |
| **6. Adolygiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/024 | Nifer y cynlluniau gofal a chymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 58 yn nodi, *Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod* ***rhaid*** *i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid*** *i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun,* ***rhaid*** *iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny.* ***Ni ddylai*** *cynllun gael ei gau heb adolygiad.* |
| AD/025 | O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn yr amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 121 yn nodi, ***Rhaid*** *i bob cynllun gofal a chymorth fod â dyddiad adolygu. Rhaid i'r dyddiad hwn gael ei gytuno neu ei osod cyn dechrau llunio'r cynllun gofal a chymorth a phob adolygiad dilynol.* ***Rhaid*** *i gynllun gofal a chymorth a chynllun cymorth gael eu hadolygu o fewn cyfnod a gytunir rhwng yr awdurdod lleol a'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ac unrhyw berson y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei gynnwys yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn cynnwys eiriolwr os bydd angen i alluogi'r person i ymgysylltu a chyfrannu'n llawn at y broses o gynllunio gofal a chymorth. Yn achos plentyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis ac, yn achos oedolyn,* ***rhaid iddo fod o fewn 12 mis.*** |
| AD/026 | Nifer yr oedolion a gefnogir gyda thaliadau uniongyrchol a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall nifer yr adolygiadau o Daliadau Uniongyrchol sy'n ddyledus, ynghyd â defnyddio'r metrig mewn cydweithrediad ag AD/027 i bennu'r gyfran o'r adolygiadau hyn a gynhaliwyd yn yr amserlenni statudol. |
| AD/027 | O'r rheini, y nifer a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 142 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr* ***o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf****.* |
| **7. Diogelu** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |

| | | |
|---|---|---|
| AD/028 | Cyfanswm yr adroddiadau ynghylch oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) Paragraff 69 yn nodi, *Dylai unrhyw bryderon ynghylch llesiant oedolyn wastad cael eu cofnodi'n ysgrifenedig, gan gynnwys a gymerwyd camau gweithredu pellach ai peidio. Dylai hynny gynnwys cofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd gan bwy a gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn.*<br><br>Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr achosion o wynebu risg a drafodir gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ac, mewn cysylltiad â'r metrigau isod, i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy'n mynd trwy'r broses amddiffyn oedolion. Mae'r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn oedolion yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| <br><br>AD/029a<br>AD/029b<br>AD/029c<br>AD/029d<br>AD/029e<br>AD/029f<br>AD/029g<br>AD/029h<br>AD/029i<br>AD/029j | O'r rheini, y nifer a dderbyniwyd gan:<br><br>Yr unigolyn ei hun<br>Priod neu aelod o'r teulu<br>Ffrind neu gymydog<br>Iechyd<br>Yr Heddlu<br>Y Gwasanaeth Prawf<br>Tai<br>Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal<br>Sefydliad trydydd sector<br>Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall) | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) Paragraff 72 yn nodi, *Gall unrhyw un hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol ynghylch cam-drin neu esgeuluso gwirioneddol, honedig neu dybiedig a hynny dros y ffôn, trwy'r e-bost neu yn ysgrifenedig.*<br><br>Mae deallusrwydd ynghylch pwy sy'n adrodd achosion honedig o oedolion yn wynebu risg yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall sut mae oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hadrodd ac i ymgysylltu'n well â phartneriaid i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. |

| | | |
|---|---|---|
| AD/029k | Arall | |
| AD/030 | Cyfanswm yr adroddiadau o oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg a aeth ymlaen i ymchwiliad | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) Paragraff 86 yn nodi, *Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (pa un a yw'n preswylio yno fel arfer ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, mae adran 126(2) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud pa bynnag ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau ac, os felly, pa gamau a chan bwy.*<br><br>Mewn cysylltiad â'r metrigau cyfagos, mae'r mesur hwn yn galluogi awdurdodau lleol i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy'n mynd trwy'r broses amddiffyn oedolion. Mae'r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn oedolion yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| AD/031 | Cyfanswm yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod i dderbyn yr adroddiad honedig o gamdriniaeth | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) Paragraff 88 yn nodi, *Ni ddylai ymholiadau gael eu rhuthro, ond dylid pennu graddfeydd amser. Dylai ymholiad gael ei gwblhau fel arfer **o fewn SAITH niwrnod gwaith** i'r atgyfeiriad. Ni fydd hyn yn atal camau gweithredu rhag cael eu cymryd ar unwaith pan fo hynny'n angenrheidiol i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Os bydd ymholiad yn cymryd mwy na saith diwrnod, dylid cofnodi'r rhesymau. Dylai'r awdurdod lleol fonitro cynnydd gyda'r ymholiad os yw asiantaeth arall yn gwneud ymholiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â'r graddfeydd amser i osgoi oedi. Nid yw'r raddfa amser saith niwrnod yn newid lle mae'r awdurdod lleol yn peri i'r ymholiad gael ei wneud gan asiantaeth arall.* |
| AD/032 | Cyfanswm yr ymholiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd angen eiriolwr | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) Paragraff 95 yn nodi, *Wrth benderfynu ynghylch natur yr ymholiadau, dylai'r awdurdod lleol ystyried nifer o ffactorau:*<br>• *Pa un a oes angen cynnwys eiriolwr* |
| AD/033 | O'r rheini, y cyfanswm a benodwyd cyn dechrau'r ymchwiliad | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Paragraff 47 yn nodi, *Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer person nad yw'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu heb gael cymorth gan unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.*<br><br>Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu a benodwyd yr eiriolwr ar yr adeg briodol. |
| AD/034a | Cyfanswm yr ymholiadau a arweiniodd at gadarnhau camdriniaeth o dan y categori:<br><br>Esgeulustod | Mae dealltwriaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall sut mae oedolion yn wynebu risg, gan alluogi ymateb wedi'i deilwra. Fel metrig cenedlaethol, mae casglu'r data hwn dros dymor hir yn ein galluogi i weld |

| | | |
|---|---|---|
| AD/034b<br>AD/034c<br>AD/034d<br>AD/034e | Camdriniaeth gorfforol<br>Trais rhywiol<br>Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol<br>Camdriniaeth ariannol | newidiadau dros amser ac i bennu a yw mentrau sy’n ceisio lleihau niwed yn cael unrhyw effaith ar y niferoedd sy’n ddarostyngedig i fath penodol o gamdriniaeth.<br><br>Mewn cysylltiad â’r metrigau cyfagos, mae’r mesur hwn yn galluogi awdurdodau lleol i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy’n mynd trwy’r broses amddiffyn oedolion. Mae’r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn oedolion yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| <br><br>AD/035a<br>AD/035b<br>AD/035c<br>AD/035d<br>AD/035e<br>AD/035f | O’r rheini, y nifer lle'r oedd y cyflawnwr honedig yn:<br><br>Blentyn neu briod<br>Aelod o’r teulu heblaw plentyn neu briod<br>Gweithiwr proffesiynol<br>Ffrind neu gymydog<br>Person arall<br>Anhysbys | Os yn bosibl, mae’n bwysig nodi’r person yr honnir ei fod yn gyfrifol am y gamdriniaeth neu’r esgeulustod. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Gweithio gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl: (Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy’n Wynebu Risg) Paragraffau 139-146 yn crynhoi’r camau pellach a all fod yn angenrheidiol. Mae deall mynychder camdriniaeth ac esgeulustod yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu gwelliannau. |
| AD/036 | Cyfanswm yr ymholiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i’r casgliad bod angen cymryd camau gweithredu | Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr achosion o oedolion sy’n wynebu risg y mae angen cymryd camau pellach yn eu cylch yn ystod y flwyddyn. Mewn cysylltiad â’r metrigau blaenorol, mae’n galluogi awdurdodau lleol i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy’n mynd trwy’r broses amddiffyn oedolion. Mae’r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn oedolion yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| | O’r rheini: | Gall oedolyn ddewis byw mewn sefyllfa lle mae risg bosibl, neu |

| | | |
|---|---|---|
| AD/037 | Y cyfanswm lle gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan yn y camau gweithredu. | gall wrthod cynllun gofal a chymorth. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol allu nodi a dadansoddi'r achosion hyn i sefydlu'r mecanweithiau gorau i leihau niwed ac amddiffyn eraill. |
| AD/038a<br>AD/038b<br>AD/038c<br>AD/038d<br>AD/038e | Cyfanswm y cynlluniau amddiffyn oedolion a oedd ar waith ar 31 Mawrth o dan y categorïau canlynol:<br><br>Esgeulustod<br>Camdriniaeth gorfforol<br>Trais rhywiol<br>Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol<br>Camdriniaeth ariannol | Mae dealltwriaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall sut mae oedolion yn wynebu risg, gan alluogi ymateb wedi'i deilwra. Fel metrig cenedlaethol, mae casglu'r data hwn dros dymor hir yn ein galluogi i weld newidiadau dros amser ac i bennu a yw mentrau sy'n ceisio lleihau niwed yn cael unrhyw effaith ar y niferoedd sy'n ddarostyngedig i fath penodol o gamdriniaeth. |
| AD/039 | Nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar gyfer oedolion a wnaed i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn | Cyflwynwyd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) fel gwelliant i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, a daethant i rym yn 2009. Fe'u cyflwynwyd i sicrhau bod hawliau pobl nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau neu weithredu drostynt eu hunain yn cael eu hamddiffyn a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu lles pennaf.<br><br>Bydd y metrig hwn yn rhoi darlun cenedlaethol o nifer y ceisiadau a wneir i awdurdodau lleol bob blwyddyn. Bydd hyn yn amlygu unrhyw wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol.<br><br>*Mae'r metrig hwn yn deillio o gasgliad blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru o ddata ar DoLS.* |
| AD/040 | Nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid | Bydd y metrig hwn yn rhoi darlun cenedlaethol o nifer yr |

| | | |
|---|---|---|
| | (DoLS) ar gyfer oedolion a awdurdodwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn | oedolion yr awdurdodwyd eu cais DoLS yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, gan amlygu gwahaniaethau mewn ymarfer awdurdod lleol. Mae'n caniatáu ar gyfer amcangyfrif elfennol o gyfran y ceisiadau DoLS a dderbyniwyd a awdurdodwyd o'u cymharu â'r metrig blaenorol.<br><br>*Mae'r metrig hwn yn deillio o gasgliad blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru o ddata ar DoLS.* |
| <br><br>AD/041a<br>AD/041b<br>AD/041c<br>AD/041d | O'r rheini, y nifer lle'r oedd y cynrychiolydd penodedig yn:<br><br>Aelod o'r teulu neu berthynas<br>Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)<br>Cynrychiolydd a delir<br>Eiriolwr annibynnol arall | Mae'r broses o ddileu rhyddid person i wneud penderfyniadau trwy DoLS wedi'i hamlinellu trwy fframwaith cyfreithiol sy'n ystyried yr angen am berson a fydd yn cynrychioli lles pennaf y person nad oes ganddo alluedd.<br><br>Mae'r metrig hwn yn helpu i ddeall atebolrwydd i IMCAs a chynrychiolwyr eraill mewn achosion DoLS.<br><br>*Mae'r metrig hwn yn deillio o gasgliad blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru o ddata ar DoLS.* |
| **8. Codi Tâl** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/042 | Nifer yr oedolion a dalodd y tâl wythnosol uchaf tuag at gost gofal neu gymorth ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn rhoi syniad o'r trefniadau codi tâl yng Nghymru ac yn gallu casglu tueddiadau dros amser. |
| AD/043 | Nifer yr oedolion a dalodd y gyfradd safonol ar gyfer gofal a chymorth neu gymorth ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig cyfradd safonol yn galluogi gwell dealltwriaeth o nifer y bobl sy'n gorfod talu am wasanaethau cyfradd safonol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, a dealltwriaeth o lefelau'r taliadau a godir am wasanaethau syml gan awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| AD/044 | Cyfanswm yr oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth | Mae'r metrig hwn yn caniatáu cymharu nifer yr oedolion y |

| | | |
|---|---|---|
| | | codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth ar draws Cymru o'u normaleiddio yn ôl poblogaeth (cyfradd y 10,000). Gellir ei ddefnyddio hefyd i amcangyfrif canran yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth sy'n gorfod cydrannu at gost eu gofal. |
| **9. Oedi wrth Drosglwyddo Gofal** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| AD/045 | Nifer yr oedolion dros 75 oed a brofodd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. | Mae oedi yn y trefniadau i oedolyn adael yr ysbyty neu symud i gyfleuster mwy priodol am resymau gofal cymdeithasol yn fetrig pwysig i'w fesur. Mae data'n gallu cael ei normaleiddio yn ôl poblogaeth a'i gymharu ar draws awdurdodau lleol. Dylai nifer uchel o DTOC am resymau gofal cymdeithasol annog awdurdodau i ymchwilio ymhellach er mwyn deall a datrys y rhesymau dros yr oedi.<br><br>*Mae'r data hwn yn deillio o'r set ddata Iechyd yng Nghymru* |

## 5.2 Rhestr o Fetrigau arfaethedig – Plant a Phobl Ifanc

| **10. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/001 | Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdod lleol i gipio gwybodaeth am alw. Mae'n mesur unigolion sy'n dod trwy'r drws ffrynt. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn galluogi sefydliadau i ganfod a darparu adnoddau ar gyfer yr elfen honno o'r gwasanaeth yn effeithiol fel ei fod yn darparu ymateb amserol i unigolion sy'n cael mynediad at help a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth hwn. |
| <br><br><br>CH/002a<br>CH/002b<br>CH/002c | O'r cysylltiadau hynny i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) yn ystod y flwyddyn:<br><br>y nifer a gafodd eu helpu trwy ddarparu gwybodaeth yn unig<br>y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy<br>y nifer a gafodd eu sgrinio allan gan eu bod yn anghymwys ar gyfer IAA | Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn hollbwysig i lwyddiant y pontio i'r system gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r metrig hwn yn edrych ar y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA, a sut cawsant eu helpu (a oedd angen asesiad ai peidio). |
| CH/003 | Nifer y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 335 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r gwasanaeth (IAA) ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, priodol ac* ***amserol*** *o safon uchel*. |
| <br><br><br>CH/004a | Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd gan:<br><br>Aelod o'ch teulu neu chi'ch hun | Mae gwybod pwy sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae pobl yn cael mynediad at y gwasanaeth IAA. Mae gwaith gydag asiantaethau partner i nodi'r galw a llwybrau i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| CH/004b<br>CH/004c<br>CH/004d<br>CH/004e<br>CH/004f<br>CH/004g<br>CH/004h<br>CH/004i<br>CH/004j<br>CH/004k | Ffrind neu gymydog<br>Iechyd<br>Addysg<br>Yr Heddlu<br>Y Gwasanaeth Prawf<br>Tai<br>Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal<br>Sefydliad trydydd sector<br>Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)<br>Arall | yn darparu ar gyfer gwell gwaith cynllunio a chanfod a darparu adnoddau rhwng sefydliadau i sicrhau bod y bobl iawn yn cael y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. |
| CH/005 | Nifer y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cyngor a Chynhorthwy wedi'u darparu yn ystod y 12 mis blaenorol | Gall fod sawl rheswm dros gysylltiadau lluosog i'r gwasanaeth IAA. Gallai fod bod anghenion person wedi cynyddu, bod eu hanghenion yn wahanol neu nad oeddent yn fodlon â'r cyngor neu'n cynhorthwy a gawsant yn y lle cyntaf. Mae'r gwasanaeth IAA yn cael ei ystyried fel gwasanaeth ataliol ynddo'i hun. Dylai niferoedd uchel o gysylltiadau ailadroddol beri i sefydliad ymchwilio ymhellach gan y gallai awgrymu gwasanaeth nad oedd yn gallu darparu ymyrraeth gynnar ac atal o safon uchel yn y pwynt cyswllt cyntaf. |
| **11. Asesiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/006 | Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd gan y gwasanaeth IAA yn ystod y flwyddyn | Mae nifer y bobl a oedd angen neu a ofynnodd am asesiad o gymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn rhoi syniad o anghenion gofal cymdeithasol cyffredinol y boblogaeth mewn ffordd gymesur, o'u normaleiddio fel cyfradd i bob 10,000 o gyfanswm y boblogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br><br><br>CH/007a<br><br>CH/007b<br>CH/007c<br>CH/007d<br><br>CH/007e<br><br>CH/007f<br><br>CH/007g | Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd gan y gwasanaeth IAA yn ystod y flwyddyn lle:<br><br><br>Roedd angen asesiad mwy cynhwysfawr (a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth<br>Roedd y broses amddiffyn oedolion wedi cychwyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 116 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddwyd ar yr offeryn asesu a chymhwystra. Ym mhob achos,* ***rhaid*** *i'r cofnod o'r asesiad gynnwys esboniad o sut bydd y camau gweithredu a argymhellir yn helpu i sicrhau'r canlyniad a nodwyd neu'n diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad.*<br><br>Mae deall sut mae unigolion yn cael eu helpu yn ystod y broses asesu yn allweddol i ddealltwriaeth awdurdodau lleol o sut mae eu prosesau asesu gwasanaethau yn gweithio. Bydd cymhariaeth ar draws Cymru yn dangos unrhyw wahaniaethau yng nghanlyniad yr asesiad ymysg y 22 awdurdod lleol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau ataliol a sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio asedau cymunedol i gyflawni canlyniadau pobl sydd eisiau help a chymorth gan y gwasanaeth IAA. |
| CH/008 | Cyfanswm yr asesiadau cynhwysfawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod y plentyn wedi'i weld | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 25 yn nodi, *Os yw'r asesiad yn ymwneud ag anghenion gofal a chymorth plentyn,* ***rhaid*** *gweld y plentyn.*<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 74 yn nodi, *Wrth ganfod anghenion gofal a chymorth plentyn a sut dylid diwallu'r anghenion hynny,* ***mae'n*** |

| | | |
|---|---|---|
| | | ***elfennol*** *bod y dull yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn golygu bod rhaid gweld y plentyn a chanolbwyntio ar ei lesiant gydol yr asesiad. Rhaid ystyried safbwynt y plentyn bob amser. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gweld ac arsylwi'r plentyn gydol unrhyw asesiad. Mae gwaith uniongyrchol gyda phlant yn ystod asesiad yn bwysig, yn cynnwys datblygu sawl dull gwahanol i'w defnyddio gyda phlant o oedran, rhyw a diwylliant gwahanol i ganfod eu dymuniadau a'u teimladau, a deall ystyr eu profiadau iddynt.* ***Rhaid*** *sicrhau diogelwch y plentyn gydol y broses asesu*. |
| CH/009a<br>CH/009b | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:<br><br>Roedd tystiolaeth o gynnig gweithredol y Gymraeg<br>Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 52 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a dylid holi'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*<br><br>Dylai'r cysyniad o gynnig gweithredol y Gymraeg gael ei ddefnyddio i sicrhau bod anghenion cyfathrebu unigolion a theuluoedd nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu hystyried yn gyfartal. |
| CH/010a<br>CH/010b | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:<br><br>lle mae tystiolaeth o gynnig gweithredol eiriolaeth<br>lle gofynnodd y plentyn neu'r teulu am eiriolwr<br>lle ystyriodd gweithiwr proffesiynol fod eiriolaeth yn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Paragraff 18 yn nodi, *Mae'n* ***rhaid*** *i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn fel partneriaid cyfartal. Mae'n* ***rhaid*** *i* |

| | | |
|---|---|---|
| CH/010c | angenrheidiol i gynrychioli dymuniadau a theimladau'r plentyn yn effeithiol | *hyn gynnwys galluogi unigolyn i nodi ei fod eisiau cymorth gan rywun arall wrth bwyso a mesur ei opsiynau a gwneud penderfyniadau am ei ganlyniadau llesiant.*<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 53 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol sicrhau bod yr holl drefniadau asesu lleol ac arbenigol yn cydymffurfio â'r gofynion hollgyffredinol yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (gweler y cod ar gyfer rhan 2) a rhaid iddo ystyried yr egwyddorion canlynol hefyd:*<br>• *darparu gwybodaeth am gael cymorth eiriolwr lle mae angen er mwyn galluogi'r unigolyn i fod yn bartner cyfartal yn y broses.* |
| CH/011 | Nifer yr asesiadau lle darparwyd eiriolwr | Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, gan alluogi gwell cynllunio a chomisiynu i'r dyfodol. Ar lefel genedlaethol, byddai'r metrig hwn yn dangos unrhyw wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. |
| CH/012 | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 78 yn nodi, *Mae ymateb awdurdod lleol i gysylltiad cychwynnol neu atgyfeiriad yn gofyn am gymorth yn hynod bwysig. Mae'n bwysig, hefyd, bod gan bob awdurdod lleol strwythurau a systemau ar waith i sicrhau ymateb effeithiol, hygyrch a chyflym i blant a theuluoedd. Mae ymateb amserol er mwyn diwallu anghenion plentyn yn golygu na all y broses asesu barhau'n ddirwystr* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *dros gyfnod hir heb ddadansoddi beth sy'n digwydd a pha gamau sydd eu hangen, waeth pa mor anodd neu gymhleth yw amgylchiadau'r plentyn. Yr amserlen ar gyfer cwblhau asesiad* ***yw uchafswm o 42 diwrnod gwaith o'r pwynt atgyfeirio.***<br><br>Mae'r syniad o gymesuredd yn cael ei gyflwyno yn y Ddeddf fel modd o ddarparu ymateb sy'n berthnasol i anghenion yr unigolyn. Mae'r syniad hwn yn ymestyn i'r amser a gymerir i gwblhau'r asesiad fel nad yw'n para'n rhy hir. Mae gallu adolygu'r amser a gymerir i asesu plant a theuluoedd yn dangos pa mor gyflym mae timau gofal cymdeithasol yn gallu ymateb i'r anghenion. |
| CH/013 | Nifer yr asesiadau y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 97 yn nodi, *Pan fo canlyniadau personol wedi newid, neu anghenion neu amgylchiadau'r unigolyn neu'r teulu wedi newid,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol gydsynio â cheisiadau i adolygu asesiadau.* ***Rhaid*** *i'r cais hwn gael ei wneud gan yr unigolyn ei hun, gan bobl â chyfrifoldeb rhiant am blentyn, gan bobl â hawliau cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn, neu gan rywun y mae'r unigolyn wedi'i enwi fel ei eiriolwr ar gyfer y broses asesu.*<br><br>Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn egwyddor allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gallu gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu'r gwasanaeth iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn yn hollbwysig i |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn y pwynt cyswllt cyntaf, gan gynyddu'r risg o anghenion yn cynyddu. Gall nifer fawr o ailasesiadau ddangos bod y gwasanaeth angen archwiliad beirniadol pellach i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i anghenion yn y pwnt cyswllt cyntaf. |
| <br><br><br><br>CH/014a<br>CH/014b<br>CH/014c<br>CH/014d<br><br>CH/014e<br><br>CH/014f<br><br>CH/014g | Nifer yr asesiadau y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol lle:<br><br>Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (NFA)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth<br>Roedd y broses amddiffyn plant wedi cychwyn | Trwy edrych ar ganlyniadau'r ailasesiad, gall awdurdodau lleol bennu a ddewiswyd yr ymateb iawn yn y pwynt cyswllt cyntaf, ynghyd ag archwilio sut i leihau nifer y bobl sy'n gofyn am ailasesiad. Mae niferoedd ar gyfer y metrig hwn yn debygol o fod yn isel, ond rhaid i unrhyw dueddiadau neu batrymau yn y data hwn gael eu harchwilio'n feirniadol er mwyn alinio'r gwasanaethau â'r anghenion. |
| **12. Cynlluniau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/015 | Cyfanswm y plant â chynlluniau gofal a chymorth ar 31 Mawrth | Mae'r metrig hwn yn ein galluogi i gael gwell darlun o'r angen am ofal a chymorth ar gyfer plant ledled Cymru. Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gymharu lefel yr angen yn eu hardal â'r lefel mewn ardaloedd eraill yng Nghymru (bydd data'n cael ei normaleiddio i gyfraddau i bob 10,000 er mwyn hwyluso'r cymharu). Gall data ar yr anghenion gofal a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chymorth fesul ardal gael ei ddefnyddio mewn cydweithrediad â setiau data eraill i bennu llesiant y genedl. |
| CH/016 | Cyfanswm y plant ag anghenion gofal a chymorth cymwys a gefnogir gyda Thaliadau Uniongyrchol ar 31 Mawrth | Un egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r gwaith o baratoi a darparu cynlluniau gofal a chymorth yw y dylai fod gan Unigolion yr opsiwn o dderbyn taliadau uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae hwn yn fecanwaith pwysig lle gall unigolion neu deuluoedd ymarfer llais, dewis a rheolaeth. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i ddarparu taliadau uniongyrchol o dan adran 51 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gallant fod ar gyfer rhai neu bob un o'r anghenion gofal a chymorth sydd wedi'u nodi. Gall taliad uniongyrchol gynnwys mecanwaith arloesol neu unigryw i gyflawni canlyniadau llesiant yr unigolyn, ac ni ellir ei wrthod oni bai ei bod hi'n glir na fyddai'n cyflawni'r canlyniadau gofynnol.<br><br>Mae'n bwysig mesur nifer y plant a theuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau llesiant er mwyn gallu pennu'r gyllideb, ynghyd â dangos cydymffurfiaeth i hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 136 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdodau lleol hyrwyddo hunanreolaeth a cheisio gwella annibyniaeth trwy alluogi pobl i wneud cyfraniad gweithredol at y broses o lywio eu gofal a'u cymorth. Wrth ddatblygu a darparu taliad uniongyrchol,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol annog a helpu pobl i bennu eu canlyniadau personol eu hunain a'r gofal a'r cymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r rhain, gan ystyried eu rhwydweithiau cymorth* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *presennol.* ***Rhaid*** *i bobl gael eu hannog i ddod o hyd i ffyrdd creadigol, hyblyg ac arloesol i gyflawni eu canlyniadau personol.* |
| **13. Adolygiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/017 | Nifer y cynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 58 yn nodi, *Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod* ***rhaid*** *i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid*** *i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun,* ***rhaid*** *iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny.* ***Ni ddylai*** *cynllun gael ei gau heb adolygiad.* |
| <br><br><br>CH/018a<br>CH/018b<br><br><br>CH/018c<br>CH/018d | Nifer y cynlluniau gofal a chymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn a oedd yn:<br><br>adolygiadau amddiffyn plant<br>adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal *(gan gynnwys adolygiadau o gynlluniau llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)*<br>adolygiadau o blant sydd angen gofal a chymorth<br>adolygiadau o gynlluniau cymorth (SGOs, taliadau uniongyrchol ac ati) | Mae'r amserlen ar gyfer adolygu cynllun gofal a chymorth yn amrywio yn ôl statws y plentyn neu'r person ifanc adeg yr adolygiad. Trwy ddadgyfuno'r data ar yr adeg hon, rydym yn gallu barnu amserlenni adolygu pob grŵp o unigolion yn fwy cywir. |
| | Nifer yr adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol a oedd yn: | Mae adolygu effeithiolrwydd Cynlluniau Gofal a Chymorth, ynghyd â galluogi'r plentyn / person ifanc i gael dweud ei |

| | | |
|---|---|---|
| CH/019a<br>CH/019b<br><br>CH/019c<br>CH/019d<br><br><br><br>CH/019e | adolygiadau amddiffyn plant<br>adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal *(gan gynnwys adolygiadau o gynlluniau llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)*<br>adolygiadau o blant sydd angen gofal a chymorth<br>adolygiadau o gynlluniau cymorth (SGOs, taliadau uniongyrchol ac ati)<br><br>a<br><br>Chyfanswm yr adolygiadau a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | ddweud am sut mae ei ofal a'i gymorth yn cael eu darparu yn rhan hanfodol o'r broses lesiant. Bydd gan wahanol blant wahanol amserlenni adolygu yn dibynnu ar eu statws. Mae'r rhain fel a ganlyn:<br><br>Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 88 yn nodi, *Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag:*<br>• *yn achos plentyn, **rhaid** i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis*<br><br>Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (adran 3.17) yn diffinio'r amserlenni ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth lle mae enw'r plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant fel a ganlyn, ***3 monthly** as a maximum time from the date of the initial child protection conference and thereafter at no more than **6 monthly** intervals*<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 374-375 yn nodi, *Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol gynnal adolygiad cyntaf o achos plentyn o fewn **20 diwrnod gwaith** i'r dyddiad pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal (Rheoliad 39 o'r Rheoliadau CPPCR).*<br><br>a |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae'n **rhaid** cynnal yr ail adolygiad o fewn **tri mis** i'r adolygiad cyntaf. Mae'n **rhaid** cynnal adolygiad o leiaf unwaith bob **chwe mis** wedyn.*<br><br>Mae'r metrig hwn ond yn edrych ar amseroldeb adolygiadau. Er bod hon yn elfen bwysig o ran mesur darpariaeth gofal a chymorth i blant, mae'n bwysig cofio bod ansawdd y cynllun a'r manwl gywirdeb a ddarperir gan broses adolygu dda yn fesur yr un mor bwysig sy'n anodd ei fesur heb brosesau ychwanegol y dylid eu diffinio a'u darparu'n lleol trwy fetrigau monitro Swyddogion Adolygu Annibynnol ac archwilio rheolaidd. |
| **14. Diogelu** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/020 | Cyfanswm y Trafodaethau Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn | Y drafodaeth am strategaeth yw'r pwynt cyntaf yn y broses amddiffyn plant lle mae gweithwyr proffesiynol yn crynhoi'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu hyd yma i benderfynu a ddylid cychwyn ymchwiliad Adran 47 ffurfiol. Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr achosion o niwed sylweddol a drafodir gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ac, mewn cysylltiad â'r metrigau isod, i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy'n mynd trwy'r broses amddiffyn plant. Mae'r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn plant yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| CH/021 | Cyfanswm y Trafodaethau Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod | Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau |

| | | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn a aeth ymlaen i Ymchwiliad Adran 47 | lleol i fesur cyfanswm yr achosion o niwed sylweddol a aeth ymlaen i asesiad ffurfiol gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ac, mewn cysylltiad â'r metrigau uchod ac isod, i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy'n mynd trwy'r broses amddiffyn plant. Mae'r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn plant yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| CH/022 | Cyfanswm yr Ymchwiliadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol | Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr achosion o niwed sylweddol a gyflwynwyd gerbron cyfarfod amlasiantaethol i ddadansoddi yn wrthrychol y pryderon mewn perthynas â bodolaeth a/neu risg o niwed sylweddol yn y dyfodol. Yn ogystal, mewn cysylltiad â'r metrigau uchod ac isod, i bennu cyfraddau athreulio unigolion sy'n mynd trwy'r broses amddiffyn plant. Mae'r gyfradd athreulio hon yn rhoi syniad eang o effeithiolrwydd y broses amddiffyn plant yn y sefydliad ac a oes gormod neu ddim digon o unigolion yn amodol ar y broses. |
| <br><br><br>CH/023a<br>CH/023b<br>CH/023c<br>CH/023d<br>CH/023e<br>CH/023f | Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn o dan y categori:<br><br>Esgeulustod<br>Camdriniaeth gorfforol<br>Camdriniaeth rywiol<br>Camdriniaeth emosiynol<br>Camdriniaeth ariannol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol | Mae mesur gwahanol fathau o gamdriniaeth sylweddol a brofir gan blant a phobl ifanc yn rhoi gwell syniad i ni o'r risgiau sy'n wynebu plant yng Nghymru. Mae ein dealltwriaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod a'u his-gategorïau yn gwella dealltwriaeth awdurdodau lleol o sut mae plant yn wynebu risg yn lleol, gan alluogi ymateb wedi'i deilwra. Fel metrig cenedlaethol, mae casglu'r data hwn dros dymor hir yn ein galluogi i weld newidiadau dros amser ac i bennu a yw mentrau sy'n ceisio lleihau niwed yn cael unrhyw effaith ar y |

| | | |
|---|---|---|
| CH/023g<br>CH/023h<br>CH/023i<br><br><br><br>CH/023j<br><br><br><br><br>CH/023k | Camdriniaeth gorfforol a rhywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth rywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol a rhywiol<br><br>A<br><br>Y nifer lle ystyrir nad yw'r plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol ond efallai ei fod angen Gofal a Chymorth<br><br>A<br><br>Y nifer lle nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach | niferoedd sy'n ddarostyngedig i fath penodol o gamdriniaeth. |
| CH/024 | O'r plant hynny a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, y nifer a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol o dan unrhyw gategori, unrhyw bryd yn ystod y 12 mis blaenorol | Mae ailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant yn fesur procsi ar gyfer niwed sylweddol ailadroddus. Gallai niferoedd uchel o blant â chofrestriadau lluosog o fewn 12 mis fod yn arwydd bod y plant yn cael eu rhoi mewn perygl gan eu bod yn cael eu dadgofrestru'n rhy fuan. Er nad oes modd pennu cyd-destun go iawn pob achos yn rhifol, mae'r mesur yn rhybuddio sefydliadau i archwilio'r achosion hyn yn fanylach. |
| CH/025 | Cyfanswm y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Cod Ymarfer Rhan 1, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg) Paragraff 159 yn nodi, *Lle mae ymarferwyr yn barnu y gall plentyn barhau i wynebu risg o niwed arwyddocaol, dylai'r awdurdod lleol gynnull cynhadledd amddiffyn plant o fewn* ***15 niwrnod gwaith*** *i'r cyfarfod strategaeth.* |
| CH/026 | Cyfanswm y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth | Mae cyfanswm y plant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | plant yn galluogi awdurdodau lleol i weld nifer y plant sy'n wynebu risg o niwed sylweddol. Mae hyn yn galluogi cynllunio gwell deallusrwydd ar gyfer staffio, adnoddau a hyfforddiant. Yn genedlaethol, mae'r niferoedd ar y gofrestr yn darparu set ddata werthfawr a ddefnyddir i asesu'r angen i ddarparu diogelwch, ynghyd ag amryw o fesuriadau eraill i bennu diogelwch a llesiant cyffredinol y genedl. |
| CH/027 | Cyfanswm y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r Grŵp Craidd a arweinir gan yr awdurdod lleol yn gyfrifol am drefnu manylion y cynllun amddiffyn plant cychwynnol a luniwyd yn y gynhadledd. Felly, mae'n hollbwysig bod y Grŵp Craidd yn cyfarfod cyn gynted â phosibl ar ôl y cofrestru i gychwyn gwaith ar y cynllun fel y gellir ei roi ar waith. Mae'r mesur yn dda o ran sicrhau bod pob Grŵp Craidd a ddylai fod wedi cyfarfod wedi gwneud hynny. |
| CH/028 | Cyfanswm y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Cod Ymarfer Rhan 1, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg) Paragraff 172 yn nodi, *Bydd y grŵp yn cwrdd o fewn 10 niwrnod gwaith i'r gynhadledd gychwynnol i ddatblygu'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth mewn mwy o fanylder; penderfynu pa gamau pellach sy'n ofynnol, gan bwy.* |
| CH/029 | Cyfanswm yr ymweliadau â phlant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn | Mae ymweld â phlant sydd angen gofal a chymorth yn hollbwysig. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn disgrifio dyletswyddau'r gweithiwr allweddol a'r amserlenni ar gyfer ymweld a ddiffinnir gan y Grŵp Craidd. |

| | | |
|---|---|---|
| CH/030 | Cyfanswm yr ymweliadau â phlant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni cymeradwy | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Adran 3.20) 2008 yn nodi,<br><br>*The key worker should:*<br><br>• *See the child at least **every 10 working days**, and ensure that the child is **seen at home at least every 4 weeks***; |
| CH/031 | Cyfanswm yr achosion o blant yn mynd ar goll yn ystod y flwyddyn | Mae gan fyrddau diogelu lleol gyfrifoldeb i fonitro plant sy'n mynd ar goll a gwneud argymhellion ar gyfer gwella arferion lle bo angen (Protocol Cymru Gyfan ar Blant Coll, Adran 7.2)<br><br>Mae plant sy'n mynd ar goll yn peri problem benodol i awdurdodau lleol gan y gallant gael eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus iawn. Dylai awdurdodau fod yn monitro'r achosion hyn yn ofalus mewn cydweithrediad â phartneriaid fel yr heddlu i bennu'r peryglon mae'r unigolion hyn yn rhoi eu hunain ynddynt a'r cysylltiadau â mathau difrifol o gamdriniaeth. |
| CH/032 | O'r rheini, cyfanswm y plant y mae'r achosion hyn yn ymwneud â nhw | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i olrhain nifer y plant sy'n mynd ar goll gyda'r nod o ddadansoddi achos absenoldeb a sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud i'r broses amddiffyn plant lle bo angen. |
| CH/033 | Cyfanswm yr adroddiadau o gam-fanteisio ar blant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae cam-fanteisio ar blant yn is-set benodol o fewn plant sy'n wynebu risg o niwed sylweddol. Mae cofnodi ac adrodd y ffactorau hyn yn rheolaidd yn gwella'r gydnabyddiaeth o'r gamdriniaeth hon ymhlith partneriaid ac yn galluogi deallusrwydd lleol o ffurfiau difrifol o gamdriniaeth systematig er mwyn i wasanaethau gael eu cynllunio yn unol â hynny. Ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | lefel genedlaethol, mae data cyfunol yn dangos ym mha ardaloedd mae'r mathau hyn o gamdriniaeth ar eu mwyaf eang. |
| CH/034a<br>CH/034b<br>CH/034c | Cyfanswm yr adroddiadau o gam-fanteisio ar blant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn:<br><br>Gamfanteisio'n rhywiol ar blant<br>Camfanteisio'n droseddol ar blant<br>Masnachu pobl | Mae sawl ffurf ar gam-fanteisio ar blant, ond bydd pob un yn cynnwys cam-drin plentyn neu blant. Gall y gamdriniaeth fod yn rhywiol, yn droseddol ac yn gorfforol, neu gall gynnwys gweithred Caethwasiaeth Fodern, yn aml yn gyfnewid am arian, cyffuriau neu yn arwain at gynhyrchu a dosbarthu pornograffi plant. Er ein bod yn deall Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn well o lawer nag yr oeddem 20 mlynedd yn ôl, mae gennym ni lawer iawn i'w ddysgu o hyd. Yn yr un modd, mae camfanteisio troseddol trwy fentrau troseddol megis Llinellau Cyffuriau wedi dechrau ennill ei blwyf dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwell dealltwriaeth o'r achosion hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r materion ar lefel leol. Er nad yw'r niferoedd eu hunain yn darparu digon o fanylion, mae nodi'r achosion hyn fel endid unigryw yn darparu'r ffocws sydd ei angen i ddeall pa mor agored i niwed yw'r rhai dan sylw fel y gallwn ni ddarparu llwybrau diffiniedig ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o gael eu camfanteisio. Bydd data cyfunol cenedlaethol yn sefydlu ym mha ardaloedd mae'r mathau hyn o gamdriniaeth ar eu mwyaf eang. |
| CH/035 | Cyfanswm y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn | Mae plant sydd â chynllun amddiffyn plant o ganlyniad i'r ffaith bod eu henw ar y gofrestr amddiffyn plant yn gwneud hynny fel mesur dros dro. Gall cofrestriad nad yw'n para'n hir iawn awgrymu efallai na ddylai'r plentyn fod wedi'i roi ar y gofrestr yn y lle cyntaf. Mae cofrestriad sy'n para amser maith yn awgrymu bod y risgiau'n dal i fod yn rhy amlwg, gan herio |

| | | |
|---|---|---|
| | | effeithiolrwydd y cynllun amddiffyn plant o ran lleihau'r risg o niwed sylweddol. |
| CH/036 | Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (dadgofrestru) yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i asesu symudiad o fewn y gofrestr amddiffyn plant ac yn galluogi gweld y rhai y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr, gan sefydlu cyfanswm amser cofrestru (cyfartalog). |
| <br><br><br>CH/037a<br>CH/037b<br>CH/037c<br>CH/037d<br>CH/037e<br>CH/037f<br>CH/037g<br>CH/037h<br>CH/037i | Cyfanswm y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn a gofrestrwyd o dan:<br><br>Esgeulustod<br>Camdriniaeth gorfforol<br>Camdriniaeth rywiol<br>Camdriniaeth emosiynol<br>Camdriniaeth ariannol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol<br>Camdriniaeth gorfforol a rhywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth rywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol a rhywiol | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i weld a oes unrhyw wahaniaeth mewn hydoedd cofrestru yn dibynnu ar y categori cofrestru. |
| <br><br>CH/038a<br>CH/038b<br>CH/038c<br>CH/038d | Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (dadgofrestru) yn ystod y flwyddyn a gofrestrwyd o dan:<br><br>Esgeulustod<br>Camdriniaeth gorfforol<br>Camdriniaeth rywiol<br>Camdriniaeth emosiynol | Gan ddefnyddio'r meddylfryd y tu ôl i CH/037, mae'r metrig hwn yn galluogi data manylach i gael ei weld fel y gall awdurdodau lleol bennu a oes unrhyw wahaniaeth yn y sbardunau ar gyfer rhoi plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant (neu ei dynnu oddi arno) pan fo gwahanol gategorïau yn cael eu hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| CH/038e<br>CH/038f<br>CH/038g<br>CH/038h<br>CH/038i | Camdriniaeth ariannol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol<br>Camdriniaeth gorfforol a rhywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth rywiol<br>Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol a rhywiol | |
| ***15.* Plant sy'n Derbyn Gofal** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CH/039 | Nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod y flwyddyn | Mae plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn cynrychioli'r achosion mwyaf cymhleth o blant sydd angen gofal a chymorth, gan mai'r rhain sy'n cymryd y mwyaf o amser ac yn defnyddio'r mwyaf o adnoddau. Bydd cynnwys y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i gymharu data (a fydd yn cael ei normaleiddio yn ôl data) ar nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal gan awdurdod lleol ac i asesu effeithiolrwydd prosesau lleol a ddyluniwyd i gadw plant allan o'r system ofal.<br><br>*Mae'r data hwn yn deillio o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal* |
| CH/040 | Nifer y cynlluniau gofal a chymorth rhan 6 a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau derbyn gofal | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 66 yn nodi, *Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n dechrau derbyn gofal wedi bod yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol ers cryn amser. O ganlyniad, pan benderfynir lletya plentyn, dylai bod modd cychwyn y broses cynllunio gofal a chymorth cyn y cyfnod gofal. Os nad oes modd gwneud hyn, mae'n **rhaid** i'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 gael ei baratoi o fewn **deg diwrnod gwaith** i ddechrau'r lleoliad cyntaf.* |

| | | |
|---|---|---|
| CH/041 | Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth | Ar lefel leol, gall y data hwn gael ei ddefnyddio hefyd i bennu nifer y plant sy'n derbyn gofal fel canran o gyfanswm y plant sydd angen gofal a chymorth. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cynrychioli rhai o'r achosion mwyaf cymhleth ac sy'n defnyddio'r mwyaf o adnoddau a drafodir gan wasanaethau cymdeithasol plant ar unrhyw adeg. Mae deall niferoedd (ac anghenion) y plant hynny sy'n derbyn gofal ar ddiwedd y flwyddyn yn caniatáu i wasanaethau gael eu cynllunio'n fwy effeithlon, gan gynnwys dyrannu adnoddau, staffio a chomisiynu. Mae data cyfunol cenedlaethol yn dweud wrthym am lesiant y genedl o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ynghyd â'n galluogi ni i gynllunio'n well ar gyfer anghenion y dyfodol.<br><br>Nid yw'n ddigon i ddibynnu ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd y flwyddyn i gael dealltwriaeth o angen. Mae'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y mae'r ffigur hwn yn deillio ohono, yn rhoi darlun cliriach o lawer o anghenion a statws plant sy'n derbyn gofal, ynghyd â'r Cyfrifiad Plant sydd Angen Gofal a Chymorth. Bydd y casgliadau hyn yn parhau yn y dyfodol.<br><br>*Mae'r data hwn yn deillio o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal* |
| CH/042 | Nifer y plant sy'n derbyn (S76) gwyliau byr ar 31 Mawrth | Mae'n bwysig bod rhieni a gofalwyr yn cael y seibiannau sydd eu hangen arnynt wrth ofalu am blentyn neu berson ifanc, gan wybod y bydd y plentyn yn derbyn gofal mewn lleoliad gofal priodol. Bydd y metrig hwn yn rhoi syniad cenedlaethol o nifer y plant sy'n cael gwyliau byr i ffwrdd o'u cartref ac, o'u normaleiddio yn ôl poblogaeth, bydd yn darparu darlun |

| | | |
|---|---|---|
| | | cenedlaethol o nifer y plant sy'n cael y gwyliau hyn y 10,000.<br><br>*Mae'r data hwn yn deillio o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal* |
| CH/043 | Nifer yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 306-307 yn nodi,<br><br>*Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod un o'i gynrychiolwyr yn ymweld â phob plentyn y mae'n gofalu amdano, a threfnu bod cyngor a chymorth priodol ar gael i'r plentyn (adran 97). Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, gweithiwr cymdeithasol dynodedig y plentyn sy'n ymweld â'r plentyn fel arfer.*<br><br>*Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynrychiolydd yn ymweld â'r plentyn lle bynnag y mae'r plentyn yn byw. Bydd hyn yn cynnwys plant sy'n cael eu lleoli mewn llety diogel, neu sy'n cael eu remandio mewn llety cadw ieuenctid.* |
| CH/044 | Nifer yr ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 316-321 yn nodi, *Mae'n **rhaid** ymweld â phlentyn o fewn wythnos iddo ddechrau unrhyw leoliad. Ar ôl hynny, mae'n **rhaid** ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob chwe wythnos yn ystod blwyddyn gyntaf unrhyw leoliad. Mae'n **rhaid** ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob chwe wythnos yn y blynyddoedd sy'n dilyn hefyd, oni bai bod y lleoliad wedi'i gytuno'n ffurfiol yn lleoliad parhaol* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *y bwriedir iddo bara nes bod y plentyn yn 18 oed. Mae'n **rhaid** ymweld â phlentyn sydd mewn lleoliad parhaol o leiaf unwaith bob tri mis yn yr ail flwyddyn a'r blynyddoedd sy'n dilyn.*<br><br>*Neu*<br><br>*Os yw gorchymyn gofal wedi'i wneud mewn perthynas â phlentyn o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989, ac mae'r plentyn yn cael ei leoli gartref gyda rhiant, mae'n **rhaid** ymweld â'r plentyn o fewn wythnos i wneud y gorchymyn gofal, ac o leiaf unwaith bob chwe wythnos ar ôl hynny. Mae'n **rhaid** ymweld â phlentyn sydd wedi'i leoli gartref gyda rhiant cyn cwblhau'r asesiad o leiaf unwaith bob wythnos nes y cynhelir yr adolygiad cyntaf, ac o leiaf unwaith bob chwe wythnos ar ôl hynny, neu nes bod yr asesiad wedi'i gwblhau.*<br><br>*Neu*<br><br>*Os yw plentyn wedi'i leoli gyda gofalwr maeth sydd wedi'i gymeradwyo dros dro (perthynas, ffrind neu berson cysylltiedig arall fel arfer), neu os yw gorchymyn gofal interim wedi'i wneud mewn perthynas â'r plentyn (o dan adran 38 o Ddeddf Plant 1989) ac mae'r plentyn yn parhau i fyw gyda'r rhiant, mae'n **rhaid** ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith yr wythnos hyd at amser yr adolygiad cyntaf. Ar ôl hynny, mae'n **rhaid** ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob pedair wythnos nes bod y gofalwr wedi'i gymeradwyo'n ofalwr maeth awdurdod lleol neu nes bod gwrandawiad terfynol yr achos gofal wedi'i gwblhau. Mae'r amlderau hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd y gall plentyn fod yn fwy agored i niwed os yw wedi'i leoli gyda* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gofalwr cyn cwblhau asesiad o addasrwydd yr unigolyn hwn nw i ofalu am y plentyn, neu os yw'r plentyn yn parhau i fyw gyda rhiant mewn amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol yn pryderu y gall y plentyn barhau i fod mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. Bydd yr ymweliadau hyn yn gyfle i'r gweithiwr cymdeithasol asesu sut mae'r berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr yn datblygu, a nodi o'r dechrau unrhyw bryderon posibl ynglŷn â llesiant plentyn.*<br><br>*Neu*<br><br>*Os yw'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, ond bod person neu asiantaeth arall yn gyfrifol am drefniadau byw'r plentyn ar hyn o bryd (fel plentyn sydd wedi'i ddedfrydu ac sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant neu adain carchar ar gyfer pobl ifanc), mae'n* ***rhaid*** *ymweld â'r plentyn o fewn wythnos i ddechrau'r trefniadau byw ac o fewn wythnos i unrhyw newidiadau i'r trefniadau byw. Ar ôl hynny, mae'n* ***rhaid*** *ymweld â'r plentyn bob chwe wythnos yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac o leiaf unwaith bob tri mis y flwyddyn ganlynol.*<br><br>*Neu*<br><br>*Yn ogystal, mae'n* ***rhaid*** *ymweld â phlentyn o fewn wythnos i dderbyn hysbysiad o dan adran 30A o Ddeddf Safonau Gofal 2000 os yw'r hysbysiad yn cyfeirio at y cartref plant lle mae'r plentyn wedi'i leoli ar hyn o bryd. Hysbysiadau i awdurdodau lleol ynglŷn â gweithgaredd gorfodi yw'r rhain, ac maent yn ymwneud â phryderon ynglŷn â sut mae cartref plant yn cael ei reoli.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Ac*<br><br>*Mae'n* ***rhaid*** *i'r gweithiwr cymdeithasol ymweld â'r lleoliad hefyd os oes unrhyw gynnig i symud y plentyn o'r lleoliad oherwydd pryderon am lesiant y plentyn.* |
| CH/045 | Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Plant sy'n cael lleoliadau lluosog yn ystod y flwyddyn (ac eithrio eithriadau penodol) sydd fwyaf tebygol o fod wedi dioddef symudiadau nas cynlluniwyd, y cyfeirir atynt weithiau fel lleoliadau sydd wedi methu. Gall y symudiadau hyn achosi straen mawr ac amharu ar y plentyn neu'r person ifanc, a gall gael effaith andwyol ar eu canlyniadau hirdymor.<br><br>*Mae'r data hwn yn deillio o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal* |
| CH/046 | Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud cartref) | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 100, 218 yn nodi<br><br>*Wrth benderfynu ble i leoli plentyn sy'n derbyn gofal, dylai awdurdod lleol wneud popeth posibl i leihau unrhyw amharu ar addysg y plentyn. Mae hyn yn golygu gwneud pob ymdrech i drefnu lleoliad gofal sy'n golygu bod modd parhau â'r ddarpariaeth addysgol bresennol, lle bo hynny er budd pennaf y plentyn. Mae'n bwysig canfod, ac ystyried, barn y plentyn ar ei addysg (yn amodol ar ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth) wrth benderfynu ble i leoli'r plentyn. Dylid gwneud popeth posibl i sicrhau bod plentyn yng Nghyfnod Allweddol 4* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *(blynyddoedd 10 ac 11) yn aros yn ei ysgol bresennol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei symud.*<br><br>*Ac*<br><br>*Mae cysondeb ym maes addysg yn bwysig hefyd ar gyfer llwyddiant academaidd plentyn a'i lesiant emosiynol a chymdeithasol. Wrth leoli plentyn, mae'n* ***rhaid*** *i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r lleoliad yn amharu ar addysg neu hyfforddiant y plentyn.* |
| CH/047 | Cyfanswm y plant a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 38 yn nodi y gellir cyflawni sefydlogrwydd ar gyfer rhai plant trwy eu dychwelyd i'w teulu genedigol.<br><br>Mae mesur hyn yn rhoi syniad o allu awdurdod i gyflawni canlyniadau i gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl. |
| CH/048 | Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol sydd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 53 yn nodi, *Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, mae'n* ***rhaid*** *i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r person ifanc i bontio i fyd oedolion a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun llwybr.* |
| CH/049 | Nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol a gwblhawyd o fewn yr | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | amserlenni statudol | Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 428 yn nodi, *Mae'n **rhaid** paratoi cynllun llwybr ar gyfer pob person ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal. Dylid paratoi'r cynllun llwybr cyn bod y person ifanc yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (h.y. pan ei fod yn berson ifanc 16 neu 17 oed sy'n derbyn gofal), a'i ystyried mewn adolygiad statudol sy'n cael ei gadeirio gan swyddog adolygu annibynnol y person ifanc.*<br><br>Nid yw'r codau ymarfer yn diffinio amserlen osod ar gyfer cwblhau'r cynllun llwybr, ond maent yn cyfeirio at gwblhau'r cynllun llwybr **cyn gynted â phosibl** ar ôl cwblhau'r asesiad o'r person ifanc. Yn ymarferol, dylid cwblhau cynllun llwybr o fewn **3 mis i ben-blwydd y person ifanc yn 16 oed neu o fewn 3 mis i sicrhau cymhwysedd ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal ar ôl 16 neu 17 oed.** |
| CH/050 | Cyfanswm y bobl ifanc y dyrannwyd cynghorydd personol iddynt yn ystod y flwyddyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 434 yn nodi, *Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benodi cynghorydd personol (CP) i'w gynorthwyo. Bydd y CP yn gweithredu fel canolbwynt i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn derbyn y cymorth personol priodol. Dylai pawb sy'n gadael gofal wybod pwy eu CP a sut i gysylltu ag ef, fel bod modd iddynt ddibynnu ar gymorth cyson gan eu gweithiwr proffesiynol allweddol unigol gydol y cyfnod pontio i fyd oedolion.* |
| CH/051 | Cyfanswm y bobl ifanc y dyrannwyd cynghorydd personol | Mesur cydymffurfiaeth. Dylid dyrannu Cynghorydd Personol i |

| | | |
|---|---|---|
| | iddynt o fewn yr amserlenni cymeradwy | blentyn pan fydd yn dod yn gymwys am wasanaethau gadael gofal. Ar gyfer plant sy'n gadael gofal, bydd hyn yn digwydd pan fydd yn troi'n 16 oed a'i fod wedi cael o leiaf 13 wythnos o leoliad rhwng 14 ac 16 oed. |
| CH/052 | Cyfanswm y rhai sy'n gadael gofal sy'n dioddef digartrefedd *(fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014)* o fewn 12 mis i adael gofal | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 547 yn nodi, *Pan fydd pobl ifanc yn gadael eu lleoliad gofal, mae'n* ***rhaid*** *i'r awdurdod lleol sicrhau bod eu cartref newydd yn addas i'w hanghenion ac yn gysylltiedig â'u cynlluniau a'u dyheadau ehangach.*<br><br>Yn ogystal, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 578-596 yn darparu gofynion penodol ar y ddarpariaeth a chynlluniau wrth gefn ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref. Ni ddylai unrhyw blentyn a oedd yn arfer derbyn gofal gyflwyno ei hun fel person digartref o fewn 12 mis i adael gofal os yw'r broses gynllunio yn ddigon cadarn.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 580 yn nodi, *Os oes argyfwng tai yn codi, mae CP y person ifanc yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei adolygu a bod y darparwyr neu'r gwasanaethau tai perthnasol yn cymryd rhan.* |
| | Cyfanswm y bobl ifanc â phrofiad o ofal yn y categorïau | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br>CH/053a<br>CH/053b<br>CH/053c | canlynol ar 31 Mawrth:<br><br>categori 1<br>categori 2<br>categori 4 | Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraff 399 yn diffinio'r gwahanol gategorïau o blant â phrofiad o ofal a'r dyletswyddau statudol sydd gan awdurdodau lleol tuag at y plant penodol hynny. Mae dealltwriaeth o'r gwahanol gategorïau yn caniatáu cynllunio gwasanaethau'n well ar gyfer yr unigolion hyn a gwasanaethau ategol eraill sydd angen eu comisiynu. |
| CH/054 | O'r rheini, y cyfanswm sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn<br><br>y 12 mis ers gadael gofal<br>yr 13 -24 mis ers gadael gofal | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Paragraffau 475-488 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y rhai sy'n gadael gofal.<br><br>Fel rhan o'r broses Cynllunio Llwybr, rhaid bod gan addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ffocws penodol. Mae'r metrig hwn yn profi gallu awdurdodau lleol i ddarparu cyfnodau o weithgarwch addysg, cyflogaeth a hyfforddiant parhaus a amlinellir yn y cynllun llwybr er mwyn hwyluso pontio mwy llwyddiannus i fod yn oedolyn. |
| CH/055 | Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n symud i mewn i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod' | 'Pan Fydda i'n Barod' yw'r enw a roddir i'r cynllun y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i gyflawni eu dyletswydd statudol i hwyluso trefniadau byw ôl-18. Fe'i datblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid trydydd sector allweddol, ac fe'i cyflwynwyd ledled Cymru yn 2015-16.<br><br>Mae cyfrif nifer y lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol a |

| | | |
|---|---|---|
| | | darlun cenedlaethol o ddefnydd y cynllun. |

# 5.3 Rhestr o Fetrigau arfaethedig – Gofalwyr

## Lle mae'r Gofalwr yn Oedolyn

| **16. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/001 | Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA gan ofalwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdod lleol i gipio gwybodaeth am alw. Mae'n mesur nifer y gofalwyr sy'n cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn galluogi sefydliadau i ganfod a darparu adnoddau ar gyfer yr elfen honno o'r gwasanaeth yn effeithiol fel ei fod yn darparu ymateb amserol i ofalwyr sy'n cael mynediad at help a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth hwn. |
| <br><br>CA/002a<br>CA/002b<br>CA/002c | O'r rheini:<br><br>y nifer a gafodd eu helpu trwy ddarparu gwybodaeth yn unig<br>y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy<br>y nifer lle nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y cyfnod IAA | Bydd y metrig hwn yn rhoi syniad o sut mae gofalwyr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn cael eu cefnogi a sut mae hyn yn cymharu â'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth gydag anghenion gofal a chymorth.<br><br>Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 300 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n cynnwys darparu:*<br><br>• *gwybodaeth am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n gywir a chyfredol, heb yr angen i ddata craidd gael ei gofnodi yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol a heb i asesiad gael ei gynnal* |

| | | |
|---|---|---|
| | | • *cyngor ar ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n briodol i'r unigolyn, yn dilyn asesiad cymesur* |
| CA/003 | Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr *(CA/002a+b)* i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 335 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r gwasanaeth (IAA) ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, priodol ac* ***amserol*** *o safon uchel*. |
| <br><br><br>CA/004a<br>CA/004b<br>CA/004c<br>CA/004d<br>CA/004e<br>CA/004f<br>CA/004g<br>CA/004h<br>CA/004i<br>CA/004j<br>CA/004k | Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn *(CA/001)* a dderbyniwyd gan<br><br>Aelod o'ch teulu neu chi'ch hun<br>Ffrind neu gymydog<br>Iechyd<br>Addysg<br>Yr Heddlu<br>Y Gwasanaeth Prawf<br>Tai<br>Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal<br>Sefydliad trydydd sector<br>Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)<br>Arall | Mae gwybod pwy sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae gofalwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth IAA. Mae gwaith gydag asiantaethau partner i nodi'r galw a llwybrau i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol yn darparu ar gyfer gwell gwaith cynllunio a chanfod a darparu adnoddau rhwng sefydliadau i sicrhau bod y bobl iawn yn cael y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. |
| CA/005 | Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cyngor a Chynhorthwy wedi'u darparu yn ystod y 12 mis blaenorol | Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael y cynhorthwy iawn ar yr amser iawn. Gall gofalwyr gysylltu â'r gwasanaeth eto os byddant yn teimlo bod eu hamgylchiadau wedi newid neu na |

| | | |
|---|---|---|
| | | chawsant y gwasanaeth oedd ei angen arnynt y tro cyntaf. Mae cadw cofnod o'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA eto yn galluogi awdurdodau lleol i asesu ansawdd yr ymateb cyntaf a nodi cyfleoedd i atal ailadrodd cyflwyniadau i'r gwasanaeth IAA. |
| **17. Yr holl asesiadau ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/006 | Cyfanswm y gofalwyr a nodwyd yn ystod y flwyddyn | Nid yw nodi pobl â chyfrifoldebau gofalu yn weithred sydd wedi'i chyfyngu i'r gwasanaeth IAA. Yn aml, mae gofalwyr yn cael eu nodi trwy'r broses o asesu'r person sy'n derbyn gofal ac mae gallu awdurdodau lleol i nodi llwybrau gofalwyr i asesu yn ffactor pwysig o ran deall sut i gynnig cymorth i'r unigolion hyn. |
| CA/007 | Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 15 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol asesu a oes angen cymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu beth maent yn debygol o fod. Diffinnir gofalwr yn y Ddeddf fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Yn gyffredinol, ni ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n cael eu talu gael eu hystyried fel gofalwyr at ddibenion y Ddeddf, nac ychwaith bobl sy'n darparu gofal fel rhan o waith gwirfoddol.*<br><br>*Fodd bynnag, gall awdurdod lleol drin person fel gofalwr hyd yn oed os na fyddai'n cael ei ystyried fel gofalwr fel arall os yw o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofalu. Gall awdurdod lleol drin person fel gofalwr* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *mewn achosion lle nad yw'r berthynas ofalu yn un bennaf fasnachol*. |
| CA/008 | Cyfanswm y cynigion o asesiadau o anghenion gofalwyr a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 115 yn nodi*, Os yw gofalwr sy'n oedolyn neu ofalwr 16 neu 17 oed yn gwrthod asesiad, nid yw'r ddyletswydd i asesu'n berthnasol. Mae gan ofalwr sy'n gwrthod asesiad yr hawl i newid ei feddwl a rhaid i'r awdurdod lleol wedyn gynnal asesiad. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol gynnig cynnal asesiad unwaith eto os yw'n fodlon bod amgylchiadau'r gofalwr wedi newid ac y byddai asesiad pellach o fudd i'r gofalwr. Unwaith eto, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad os yw'r gofalwr yn gwrthod.*<br><br>Bydd gwybod nifer (a chyfran) y gofalwyr sy'n gwrthod asesiad yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a ddylai fod yn fuddiol o ran gwella gwybodaeth am broses asesu'r gofalwr. |
| <br><br>CA/009a<br>CA/009b<br><br>CA/009c | O'r rheini, y nifer a wrthodwyd oherwydd:<br><br>Nad oedd y gofalwr eisiau cael ei asesu<br>Bod y gofalwr yn teimlo nad oedd ganddo amser ar gyfer yr asesiad<br>Bod y gofalwr yn teimlo ei fod yn gallu ymdopi heb gymorth gan wasanaethau cymdeithasol | Gall gwybodaeth am pam mae gofalwyr yn gwrthod asesiad gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol i weithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth am yr help a'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| CA/009d<br>CA/009e<br><br>CA/009f | Bod y gofalwr yn teimlo nad oedd angen asesiad ar y pryd<br>Bod gan y gofalwr rwydweithiau cymorth yn barod (teulu a ffrindiau)<br>Rheswm arall | |
| CA/010 | Cyfanswm y cynigion o asesiadau o anghenion gofalwyr a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfran y gofalwyr a nodir sy'n mynd ymlaen i gael eu hasesu. O'u cyfuno â metrigau cyfagos, bydd yn galluogi darlun mwy cyflawn o sut mae'r gwasanaeth yn cael ei sefydlu i ddarparu'r help a'r cymorth i ofalwyr. |
| CA/011 | O'r rheini, cyfanswm yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | Ni fydd pob gofalwr yn cwblhau'r broses asesu gydag awdurdodau lleol. Bydd llawer yn rhoi'r ffidil yn y to hanner ffordd drwy'r broses. Os na fydd nifer fawr o asesiadau o anghenion gofalwyr yn cyrraedd eu terfyn, dylai hyn annog yr awdurdod lleol i bennu a oes angen gwneud newidiadau i'r broses o asesu gofalwyr. |
| <br><br>CA/012a<br><br>CA/012b<br>CA/012c<br>CA/012d<br><br>CA/012e<br><br>CA/012f<br><br>CA/012g | O'r rheini, y cyfanswm lle:<br><br>Roedd angen asesiad mwy cynhwysfawr (a all gynnwys asesiadau arbenigol)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth<br>Roedd y broses amddiffyn oedolion wedi cychwyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 116 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddwyd ar yr offeryn asesu a chymhwystra. Ym mhob achos,* ***rhaid*** *i'r cofnod o'r asesiad gynnwys esboniad o sut bydd y camau gweithredu a argymhellir yn helpu i sicrhau'r canlyniad a nodwyd neu'n diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad.*<br><br>Mae deall sut mae gofalwyr yn cael eu helpu yn ystod y broses asesu yn allweddol i ddealltwriaeth awdurdodau lleol o sut mae eu gweithrediadau asesu yn gweithio. Bydd cymhariaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar draws Cymru yn dangos unrhyw wahaniaethau yng nghanlyniad yr asesiad ymysg y 22 awdurdod lleol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau ataliol a sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio asedau cymunedol i gyflawni canlyniadau pobl sydd eisiau help a chymorth gan y gwasanaeth IAA. |
| <br><br><br>CA/013a<br>CA/013b | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd *(CA/007)* yn ystod y flwyddyn lle:<br><br>Roedd tystiolaeth o gynnig gweithredol y Gymraeg<br>Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir gan y gofalwr | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 52 yn nodi, ***Rhaid** i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a dylid holi'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*<br><br>Dylai'r cysyniad o gynnig gweithredol y Gymraeg gael ei ddefnyddio i sicrhau bod anghenion cyfathrebu unigolion a theuluoedd nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu hystyried yn gyfartal. |
| <br><br><br>CA/014a<br>CA/014b<br>CA/014c<br><br><br>CA/014d | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr (CA/007) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:<br><br>lle mae tystiolaeth o gynnig eiriolaeth<br>lle gofynnodd yr unigolyn neu'r teulu am eiriolwr<br>lle ystyriodd gweithiwr proffesiynol fod eiriolaeth yn angenrheidiol i gynrychioli dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn effeithiol<br>lle'r oedd darparu eiriolwr yn angenrheidiol o dan y gyfraith | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Paragraff 18 yn nodi, *Mae'n **rhaid** i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn fel partneriaid cyfartal. Mae'n **rhaid** i hyn gynnwys galluogi unigolyn i nodi ei fod eisiau cymorth gan rywun arall wrth bwyso a mesur ei opsiynau a gwneud penderfyniadau am ei ganlyniadau llesiant.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 53 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol sicrhau bod yr holl drefniadau asesu lleol ac arbenigol yn cydymffurfio â'r gofynion hollgyffredinol yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (gweler y cod ar gyfer rhan 2) a rhaid iddo ystyried yr egwyddorion canlynol hefyd:*<br>• *darparu gwybodaeth am gael cymorth eiriolwr lle mae angen er mwyn galluogi'r unigolyn i fod yn bartner cyfartal yn y broses.* |
| CA/015 | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr lle darparwyd eiriolwr | Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, gan alluogi gwell cynllunio a chomisiynu i'r dyfodol. Ar lefel genedlaethol, byddai'r metrig hwn yn dangos unrhyw wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. |
| CA/016 | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr y gofynnodd yr unigolyn neu ei deulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol o anghenion gofalwyr wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 97 yn nodi, *Pan fo canlyniadau personol wedi newid, neu anghenion neu amgylchiadau'r unigolyn neu'r teulu wedi newid,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol gydsynio â cheisiadau i adolygu asesiadau.* ***Rhaid*** *i'r cais hwn gael ei wneud gan yr unigolyn ei hun, gan bobl â chyfrifoldeb rhiant am blentyn, gan bobl â hawliau cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn, neu gan rywun y mae'r unigolyn wedi'i enwi fel ei eiriolwr ar gyfer y broses asesu.*<br><br>Mae gallu gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu'r gwasanaeth iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn yn hollbwysig i |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn y pwynt cyswllt cyntaf. Gall nifer fawr o ailasesiadau ar gyfer gofalwyr ddangos bod y gwasanaeth angen archwiliad beirniadol pellach i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i anghenion cymorth gofalwr yn y pwynt cyswllt cyntaf. Yn ogystal, gall newid sylweddol mewn amgylchiadau olygu na all gofalwyr ddiwallu anghenion yr unigolyn y maent yn gofalu amdano mwyach oherwydd yr angen i gynnal asesiad ar gyfer gofal a chymorth. |
| <br><br>CA/017a<br>CA/017b<br>CA/017c<br>CA/017d<br><br>CA/017e<br><br>CA/017f<br><br>CA/017g | O'r rheini, y nifer lle:<br><br>Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (NFA)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun cymorth<br>Roedd y broses amddiffyn oedolion wedi cychwyn | Trwy edrych ar ganlyniadau'r ailasesiad, gall awdurdodau lleol bennu a ddarparwyd yr ymateb iawn yn y pwynt cyswllt cyntaf, ynghyd ag archwilio sut i leihau nifer y bobl sy'n gofyn am ailasesiad. Rhaid i unrhyw dueddiadau neu batrymau yn y data hwn gael eu harchwilio'n feirniadol er mwyn alinio'r gwasanaethau â'r anghenion. |
| **18. Ymyrraeth Gynnar ac Atal** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| <br><br>CA/018a | Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:<br><br>Darparwyd gwasanaeth a ddarperir neu a gomisiynir yn fewnol | Mae cymorth ar gyfer gofalwyr yn cael ei ddarparu'n aml gan wasanaethau a gomisiynir yn allanol neu bartneriaid trydydd sector. Bydd y metrig hwn yn galluogi barn ar faint o ofalwyr sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau sy'n gallu darparu'r |

| | | |
|---|---|---|
| CA/018b | Atgyfeiriwyd yr unigolyn i wasanaethau ataliol allanol | cymorth sydd ei angen y tu allan i'r awdurdod lleol. |
| **19. Cynlluniau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/019 | Nifer y gofalwyr â chynllun cymorth ar 31 Mawrth | Bydd nifer y gofalwyr â chynllun cymorth a reolir gan yr awdurdod lleol yn galluogi gwaith dyrannu adnoddau a chynllunio gwell i'r dyfodol. Bydd hefyd yn creu darlun cenedlaethol sy'n dangos sut mae awdurdodau lleol yn debygol o ymateb i anghenion cymorth gofalwyr. |
| <br><br>CA/020a<br>CA/020b<br>CA/020c<br>CA/020d<br>CA/020e<br>CA/020f<br>CA/020g<br>CA/020h | O'r rhain, y nifer a oedd yn gofalu am:<br><br>Briod neu Bartner<br>Rhiant/Rhieni<br>Teidiau a neiniau<br>Brawd neu chwaer<br>Plentyn<br>Aelod arall o'r teulu<br>Ffrind/Cymydog<br>Arall | Mae deall yr unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu yn rhoi mwy o fanylion i awdurdodau lleol er mwyn cynllunio gwasanaethau effeithiol, ynghyd â sut i dargedu gwybodaeth at grwpiau penodol o bobl. |
| CA/021 | Nifer y gofalwyr a gefnogir gyda thaliadau uniongyrchol ar 31 Mawrth | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 128 yn nodi, *Ystyr taliadau uniongyrchol yw symiau ariannol a roddir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth neu, yn achos gofalwyr, eu hanghenion cymorth. Mae taliadau* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *uniongyrchol yn fecanwaith pwysig y mae pobl yn ei ddefnyddio i arfer dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. Felly, mae taliadau uniongyrchol o'r fath yn rhan annatod o'r gwaith o ddiwallu anghenion pobl trwy gynlluniau gofal a chymorth, a rhaid iddynt beidio â chael eu hystyried ar wahân nac fel ystyriaeth eilradd.* |
| **20. Adolygiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/022 | Nifer y cynlluniau cymorth gofalwyr a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn | Rhaid i ddarpariaeth cymorth i ofalwyr gael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cymorth yn addas ac nad oes gan y person sy'n derbyn gofal unrhyw anghenion ychwanegol sydd angen eu hasesu.<br><br>Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 115 yn nodi, *Mae adolygiad yn rhan allweddol o ofal a chymorth effeithiol a gall trefniadau da sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn briodol, yn benodol ac yn berthnasol i'r unigolyn ac annog yr unigolyn i barhau i gymryd rheolaeth dros ei gymorth.* |
| CA/023 | O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 121 yn nodi, ***Rhaid** i bob cynllun gofal a chymorth fod â dyddiad adolygu. Rhaid i'r dyddiad hwn gael ei gytuno neu ei osod cyn dechrau llunio'r cynllun gofal a chymorth a phob* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *adolygiad dilynol.* ***Rhaid*** *i gynllun gofal a chymorth a chynllun cymorth gael eu hadolygu o fewn cyfnod a gytunir rhwng yr awdurdod lleol a'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo ac unrhyw berson y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei gynnwys yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn cynnwys eiriolwr os bydd angen i alluogi'r person i ymgysylltu a chyfrannu'n llawn at y broses o gynllunio gofal a chymorth. Yn achos plentyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis ac, yn achos oedolyn,* ***rhaid iddo fod o fewn 12 mis.*** |

## Lle mae'r Gofalwr yn Blentyn neu'n Berson Ifanc

| **1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/024 | Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaeth IAA gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdod lleol i gipio gwybodaeth am alw, gan fesur nifer y gofalwyr ifanc sy'n cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn galluogi sefydliadau i ganfod a darparu adnoddau ar gyfer yr elfen honno o'r gwasanaeth yn effeithiol fel ei fod yn darparu ymateb prydlon i ofalwyr sy'n cael mynediad at help a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth hwn. |
| <br><br>CA/025a<br>CA/025b<br>CA/025c | O'r rheini:<br><br>y nifer a gafodd eu helpu trwy ddarparu gwybodaeth yn unig<br>y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy<br>y nifer lle nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y cyfnod IAA | Bydd y metrig hwn yn rhoi syniad o sut mae gofalwyr ifanc sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn cael eu cefnogi a sut mae hyn yn cymharu â'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth gydag anghenion gofal a chymorth.<br><br>Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 300 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n cynnwys darparu:*<br><br>• *gwybodaeth am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n gywir a chyfredol, heb yr angen i ddata craidd gael ei gofnodi yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol a heb i asesiad gael ei gynnal*<br>• *cyngor ar ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, sy'n briodol i'r unigolyn, yn dilyn asesiad* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *cymesur* |
| CA/026 | Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr ifanc *(CA/002a+b)* i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Paragraff 335 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r gwasanaeth (IAA) ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, priodol ac* ***amserol*** *o safon uchel*. |
| <br><br><br>CA/027a<br>CA/027b<br>CA/027c<br>CA/027d<br>CA/027e<br>CA/027f<br>CA/027g<br>CA/027h<br>CA/027i<br>CA/027j<br>CA/027k | Nifer y cysylltiadau yn ymwneud â gofalwyr ifanc a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn *(CA/001)* a dderbyniwyd gan<br><br>Aelod o'ch teulu neu chi'ch hun<br>Ffrind neu gymydog<br>Iechyd<br>Addysg<br>Yr Heddlu<br>Y Gwasanaeth Prawf<br>Tai<br>Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal<br>Sefydliad trydydd sector<br>Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)<br>Arall | Mae gwybod pwy sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae gofalwyr ifanc yn cael mynediad at y gwasanaeth IAA. Mae gwaith gydag asiantaethau partner i nodi'r galw a llwybrau i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol yn darparu ar gyfer gwell gwaith cynllunio a chanfod a darparu adnoddau rhwng sefydliadau i sicrhau bod y bobl iawn yn cael y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. |
| CA/028 | Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr ifanc i'r gwasanaeth IAA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cyngor a Chynhorthwy wedi'u darparu yn ystod y 12 mis blaenorol | Mae'n bwysig bod gofalwyr ifanc yn cael y cynhorthwy iawn ar yr amser iawn. Gall gofalwyr ifanc gysylltu â'r gwasanaeth eto os byddant yn teimlo bod eu hamgylchiadau wedi newid neu na chawsant y gwasanaeth oedd ei angen arnynt y tro cyntaf. Mae cadw cofnod o'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA eto yn galluogi awdurdodau lleol i asesu ansawdd yr ymateb cyntaf, gan sicrhau bod gofalwyr ifanc yn derbyn y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **2. Yr holl asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/029 | Cyfanswm y gofalwyr ifanc a nodwyd yn ystod y flwyddyn | Nid yw nodi pobl â chyfrifoldebau gofalu yn weithred sydd wedi'i chyfyngu i'r gwasanaeth IAA. Yn aml, mae gofalwyr ifanc yn cael eu nodi trwy'r broses o asesu'r person sy'n derbyn gofal neu drwy asesiad gofal a chymorth. Mae gallu awdurdodau lleol i nodi llwybrau gofalwyr ifanc i asesu yn ffactor pwysig o ran deall sut i gynnig cymorth i'r unigolion hyn. |
| CA/030 | Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 15 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol asesu a oes angen cymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu beth maent yn debygol o fod. Diffinnir gofalwr yn y Ddeddf fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Yn gyffredinol, ni ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n cael eu talu gael eu hystyried fel gofalwyr at ddibenion y Ddeddf, nac ychwaith bobl sy'n darparu gofal fel rhan o waith gwirfoddol.*<br><br>*Fodd bynnag, gall awdurdod lleol drin person fel gofalwr hyd yn oed os na fyddai'n cael ei ystyried fel gofalwr fel arall os yw o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofalu. Gall awdurdod lleol drin person fel gofalwr mewn achosion lle nad yw'r berthynas ofalu yn un bennaf fasnachol*. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| CA/031 | Cyfanswm y cynigion o asesiadau o anghenion gofalwyr a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 115 yn nodi, *Os yw gofalwr sy'n oedolyn neu ofalwr 16 neu 17 oed yn gwrthod asesiad, nid yw'r ddyletswydd i asesu'n berthnasol. Mae gan ofalwr sy'n gwrthod asesiad yr hawl i newid ei feddwl a rhaid i'r awdurdod lleol wedyn gynnal asesiad. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol gynnig cynnal asesiad unwaith eto os yw'n fodlon bod amgylchiadau'r gofalwr wedi newid ac y byddai asesiad pellach o fudd i'r gofalwr. Unwaith eto, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad os yw'r gofalwr yn gwrthod.*<br><br>Bydd gwybod nifer (a chyfran) y gofalwyr ifanc sy'n gwrthod asesiad yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a ddylai fod yn fuddiol o ran gwella'r ymgysylltu â gofalwyr ifanc a gwybodaeth am broses asesu'r gofalwr ifanc. |
| <br><br>CA/032a<br>CA/032b<br>CA/032c<br><br>CA/032d<br><br>CA/032e<br>CA/032f | O'r rheini, y nifer a wrthodwyd oherwydd:<br><br>Nad oedd y gofalwr eisiau cael ei asesu<br>Nad oedd rhiant/rhieni'r gofalwr eisiau'r asesiad<br>Bod y gofalwr yn teimlo nad oedd ganddo amser ar gyfer yr asesiad<br>Bod y gofalwr yn teimlo ei fod yn gallu ymdopi heb gymorth gan wasanaethau cymdeithasol<br>Bod y gofalwr yn teimlo nad oedd angen asesiad ar y pryd<br>Bod gan y gofalwr rwydweithiau cymorth yn barod (teulu a | Mae gwybodaeth am pam mae gofalwyr ifanc yn gwrthod asesiad yn rhoi darlun cliriach o'r prif ffactorau y tu ôl i'r gwrthodiad. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i weithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth am yr help a'r cymorth sydd ar gael iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| <br>CA/032g | ffrindiau)<br>Rheswm arall | |
| CA/033 | Cyfanswm y cynigion o asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfran y gofalwyr ifanc a nodir sy'n mynd ymlaen i gael eu hasesu. O'u cyfuno â metrigau cyfagos, bydd yn galluogi darlun mwy cyflawn o sut mae'r gwasanaeth yn cael ei sefydlu i ddarparu'r help a'r cymorth i ofalwyr ifanc. |
| CA/034 | O'r rheini, cyfanswm yr asesiadau gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | Ni fydd pob gofalwr ifanc yn cwblhau'r broses asesu gydag awdurdodau lleol. Bydd llawer yn rhoi'r ffidil yn y to hanner ffordd drwy'r broses. Os na fydd nifer fawr o asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn cyrraedd eu terfyn, dylai hyn annog yr awdurdod lleol i ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i hyn i bennu a oes angen gwneud newidiadau i'r broses o asesu gofalwyr. |
| <br><br>CA/035a<br><br>CA/035b<br>CA/035c<br>CA/035d<br><br>CA/035e<br><br>CA/035f<br><br>CA/035g | O'r rheini, y cyfanswm lle:<br><br>Roedd angen asesiad mwy cynhwysfawr (a all gynnwys asesiadau arbenigol)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun cymorth<br>Roedd y broses amddiffyn plant wedi cychwyn | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 116 yn nodi, ***Rhaid*** *i awdurdod lleol gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddwyd ar yr offeryn asesu a chymhwystra. Ym mhob achos,* ***rhaid*** *i'r cofnod o'r asesiad gynnwys esboniad o sut bydd y camau gweithredu a argymhellir yn helpu i sicrhau'r canlyniad a nodwyd neu'n diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad.*<br><br>Mae deall sut mae gofalwyr ifanc yn cael eu helpu yn ystod y broses asesu yn allweddol i ddealltwriaeth awdurdodau lleol o sut mae eu gweithrediadau asesu yn gweithio. Bydd cymhariaeth ar draws Cymru yn dangos unrhyw wahaniaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | yng nghanlyniad yr asesiad ymysg y 22 awdurdod lleol, gan gynnwys argaeledd ac atebolrwydd i bartneriaid trydydd sector a gallu awdurdodau lleol i ddefnyddio asedau cymunedol i gyflawni canlyniadau pobl sydd eisiau help a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol. |
| <br><br><br>CA/036a<br>CA/036b | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gwblhawyd *(CA/031)* yn ystod y flwyddyn lle:<br><br>Roedd tystiolaeth o gynnig gweithredol y Gymraeg<br>Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir gan y gofalwr | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 52 yn nodi, ***Rhaid** i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a dylid holi'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*<br><br>Dylai'r cysyniad o gynnig gweithredol y Gymraeg gael ei ddefnyddio i sicrhau bod anghenion cyfathrebu unigolion a theuluoedd nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu hystyried yn gyfartal. |
| <br><br><br>CA/037a<br>CA/037b<br>CA/037c<br><br><br>CA/037d | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr (CA/031) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:<br><br>lle mae tystiolaeth o gynnig gweithredol eiriolaeth<br>lle gofynnodd yr unigolyn neu'r teulu am eiriolwr<br>lle ystyriodd gweithiwr proffesiynol fod eiriolaeth yn angenrheidiol i gynrychioli dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn effeithiol<br>lle'r oedd darparu eiriolwr yn angenrheidiol o dan y gyfraith | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Paragraff 18 yn nodi, *Mae'n **rhaid** i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn fel partneriaid cyfartal. Mae'n **rhaid** i hyn gynnwys galluogi unigolyn i nodi ei fod eisiau cymorth gan rywun arall wrth bwyso a mesur ei opsiynau a gwneud penderfyniadau am ei ganlyniadau llesiant.*<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 53 yn nodi, ***Rhaid** i awdurdod lleol sicrhau bod yr holl drefniadau asesu lleol ac arbenigol yn cydymffurfio â'r gofynion hollgyffredinol yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (gweler y cod ar gyfer rhan 2) a rhaid iddo ystyried yr egwyddorion canlynol hefyd:*<br>• *darparu gwybodaeth am gael cymorth eiriolwr lle mae angen er mwyn galluogi'r unigolyn i fod yn bartner cyfartal yn y broses.* |
| CA/038 | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc lle darparwyd eiriolwr | Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, gan alluogi gwell cynllunio a chomisiynu i'r dyfodol. Ar lefel genedlaethol, byddai'r metrig hwn yn dangos unrhyw wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. |
| CA/039 | Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc y gofynnodd yr unigolyn neu ei deulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol o anghenion gofalwyr wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 97 yn nodi, *Pan fo canlyniadau personol wedi newid, neu anghenion neu amgylchiadau'r unigolyn neu'r teulu wedi newid, **rhaid** i awdurdod lleol gydsynio â cheisiadau i adolygu asesiadau. **Rhaid** i'r cais hwn gael ei wneud gan yr unigolyn ei hun, gan bobl â chyfrifoldeb rhiant am blentyn, gan bobl â hawliau cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn, neu gan rywun y mae'r unigolyn wedi'i enwi fel ei eiriolwr ar gyfer y broses asesu.*<br><br>Mae gallu gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaeth iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn yn hollbwysig i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn y pwynt cyswllt cyntaf. Gall nifer fawr o ailasesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc ddangos bod y gwasanaeth angen archwiliad beirniadol pellach i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i anghenion cymorth y gofalwr ifanc yn y pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Yn ogystal, gall newid sylweddol mewn amgylchiadau olygu na all gofalwyr ifanc ddiwallu anghenion yr unigolyn y maent yn gofalu amdano mwyach oherwydd yr angen i gynnal asesiad ar gyfer gofal a chymorth. |
| <br><br>CA/040a<br>CA/040b<br>CA/040c<br>CA/040d<br><br>CA/040e<br><br>CA/040f<br><br>CA/040g | O'r rheini, y nifer lle:<br><br>Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (NFA)<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu IAA<br>Diwallwyd anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol<br>Diwallwyd anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn neu'r teulu ei hun (gyda neu heb help eraill)<br>Cyfrannodd materion eraill at gyflawni'r canlyniadau personol, neu diwallwyd anghenion fel arall<br>Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy gynllun cymorth<br>Roedd y broses amddiffyn plant wedi cychwyn | Trwy edrych ar ganlyniadau'r ailasesiad, gall awdurdodau lleol bennu a ddarparwyd yr ymateb iawn yn y pwynt cyswllt cyntaf, ynghyd ag archwilio sut i leihau nifer y bobl sy'n gofyn am ailasesiad. Mae niferoedd ar gyfer y metrig hwn yn debygol o fod yn isel, ond rhaid i unrhyw dueddiadau neu batrymau yn y data hwn gael eu harchwilio'n feirniadol er mwyn alinio'r gwasanaethau â'r anghenion. |
| **3. Ymyrraeth Gynnar ac Atal** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| | Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: | Mae cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc yn cael ei ddarparu'n aml gan wasanaethau a gomisiynir yn allanol neu bartneriaid trydydd sector. Bydd y metrig hwn yn galluogi barn ar faint o |

| | | |
|---|---|---|
| CA/041a<br><br>CA/041b | Darparwyd gwasanaeth a ddarperir neu a gomisiynir yn fewnol<br>Atgyfeiriwyd yr unigolyn i wasanaethau ataliol | ofalwyr ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau sy'n gallu darparu'r cymorth sydd ei angen y tu allan i'r awdurdod lleol. |
| **4. Cynlluniau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/042 | Nifer y gofalwyr ifanc â chynllun cymorth ar 31 Mawrth | Bydd nifer y gofalwyr ifanc â chynllun cymorth a reolir gan yr awdurdod lleol yn galluogi gwaith dyrannu adnoddau a chynllunio gwell i'r dyfodol. Bydd hefyd yn creu darlun cenedlaethol sy'n dangos sut mae awdurdodau lleol yn debygol o ymateb i anghenion cymorth gofalwyr ifanc. |
| <br><br>CA/043a<br>CA/043b<br>CA/043c<br>CA/043d<br>CA/043e<br>CA/043f<br>CA/043g | O'r rhain, y nifer a oedd yn gofalu am:<br><br>Riant/Rhieni<br>Teidiau a neiniau<br>Brawd neu chwaer<br>Plentyn<br>Aelod arall o'r teulu<br>Ffrind/Cymydog<br>Arall | Mae deall yr unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu yn rhoi mwy o fanylion i awdurdodau lleol er mwyn cynllunio gwasanaethau effeithiol, ynghyd â sut i dargedu gwybodaeth at grwpiau penodol o bobl. |
| CA/044 | Nifer y gofalwyr ifanc a gefnogir gyda thaliadau uniongyrchol ar 31 Mawrth | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 128 yn nodi, *Ystyr taliadau uniongyrchol yw symiau ariannol a roddir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth neu, yn achos gofalwyr, eu hanghenion cymorth. Mae taliadau uniongyrchol yn fecanwaith pwysig y mae pobl yn ei ddefnyddio i arfer dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. Felly, mae taliadau uniongyrchol o'r fath yn rhan annatod o'r gwaith o ddiwallu anghenion pobl trwy gynlluniau gofal a chymorth, a rhaid iddynt beidio â chael eu hystyried ar wahân nac fel ystyriaeth eilradd.* |
| **5. Adolygiadau** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| CA/045 | Nifer y cynlluniau cymorth gofalwyr ifanc a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn | Rhaid i ddarpariaeth cymorth i ofalwyr ifanc gael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cymorth yn addas ac nad oes gan y person sy'n derbyn gofal unrhyw anghenion ychwanegol sydd angen eu hasesu.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 115 yn nodi, *Mae adolygiad yn rhan allweddol o ofal a chymorth effeithiol a gall trefniadau da sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn briodol, yn benodol ac yn berthnasol i'r unigolyn ac annog yr unigolyn i barhau i gymryd rheolaeth dros ei gymorth.* |
| CA/046 | O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn amserlenni statudol | Mesur cydymffurfiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Paragraff 121 yn nodi, *Rhaid i bob cynllun gofal a chymorth fod â dyddiad adolygu. Rhaid i'r dyddiad hwn gael ei gytuno neu ei osod cyn dechrau llunio'r cynllun gofal a chymorth a phob adolygiad dilynol. Rhaid i gynllun gofal a chymorth a chynllun cymorth gael eu hadolygu o fewn cyfnod a gytunir rhwng yr awdurdod lleol a'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo ac unrhyw berson y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei gynnwys yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynllun gofal a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *chymorth. Bydd hyn yn cynnwys eiriolwr os bydd angen i alluogi'r person i ymgysylltu a chyfrannu'n llawn at y broses o gynllunio gofal a chymorth. Yn achos plentyn,* ***rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis.*** |

## 5.4 Rhestr o Fetrigau arfaethedig – Y Gweithlu

| **1. Y Gweithlu** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| WF/001 | Cyfanswm y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol o fewn eich sefydliad | Mae'r metrig hwn yn darparu mesuriad cyffredinol o'r adnoddau a'r personél mae awdurdod lleol yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth o safon uchel o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Yn genedlaethol, ac mewn cydweithrediad â metrigau eraill, mae'n galluogi barn ar sut mae gofal a chymorth yn cael ei ddarparu yng Nghymru. |
| <br><br>WF/002a<br>WF/002b | O'r rheini,<br><br>Y cyfanswm a gyflogir yn llawn amser (>= 37 awr yr wythnos)<br>Y cyfanswm a gyflogir yn rhan-amser (<37 awr yr wythnos) | Mae manylion am oriau'r gweithlu yn fesuriad defnyddiol i asesu'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer elfennau o'r gwaith lle mae angen cynhwysiant staff h.y. cyfarfodydd, hyfforddiant ac ati. |
| <br><br><br>WF/003a<br>WF/003a | Cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn (WTE) a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad<br><br>Mewn gwasanaethau i Oedolion<br>Mewn gwasanaethau i Blant | Mae'r metrig hwn yn galluogi cymharu staff mewn gwasanaethau oedolion a phlant ledled Cymru. |
| <br><br><br>WF/004a<br>WF/004b<br>WF/004c<br>WF/004d<br>WF/004e<br>WF/004f | O'r rheini a gyflogir mewn gwasanaethau oedolion, y nifer sy'n:<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl | Yr un fath ag WF/003, mae'r metrig hwn yn galluogi cymharu staff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol oedolion ledled Cymru, ond ar wahanol lefel manylder. Y tro hwn yn ôl proffesiwn. |

| | | |
|---|---|---|
| WF/004g<br>WF/004h | Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | |
| <br><br>WF/005a<br>WF/005b<br>WF/005c<br>WF/005d<br>WF/005e<br>WF/005f<br>WF/005g<br>WF/005h | O’r rheini a gyflogir mewn gwasanaethau plant, y nifer sy’n:<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Yr un fath ag WF/003, mae’r metrig hwn yn galluogi cymharu staff sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol plant ledled Cymru, ond ar wahanol lefel manylder. Y tro hwn yn ôl proffesiwn. |
| <br><br><br><br>WF/006a<br>WF/006b | Cyfanswm y gweithwyr cymdeithasol cymwys a gyflogir yn eich sefydliad sydd â 12 mis neu lai o brofiad ôl-gymhwyso sy’n gweithio mewn:<br><br>Gwasanaethau Oedolion<br>Gwasanaethau Plant | Mae gan weithlu iach bob math o sgiliau a phrofiad. Mae gweithwyr cymdeithasol yn fwy agored i niwed yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer. Mae’n bwysig iawn bod sefydliadau’n deall nifer y staff newydd gymhwyso yn eu sefydliad er mwyn darparu’r cymorth sydd ei angen arnynt i dyfu eu sgiliau a’u hyder.<br><br>Yn genedlaethol, bydd yn dangos unrhyw wahaniaethau rhwng gwasanaethau oedolion a phlant. |
| <br><br><br><br>WF/007a<br>WF/007b | Cyfanswm y gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant (myfyrwyr) a osodwyd yn eich awdurdod yn ystod y flwyddyn mewn:<br><br>Gwasanaethau Oedolion<br>Gwasanaethau Plant | Mae gallu awdurdodau lleol i ddarparu lleoliadau o safon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant yn darparu’r profiad sydd ei angen ar y genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol i’w paratoi ar gyfer cyflogaeth.<br><br>Fodd bynnag, gall gormod o leoliadau bwyntio tuag at orddibyniaeth ar staff anghymwys i gyflawni gwaith a ddylai |

| | | |
|---|---|---|
| | | gael ei gwblhau gan staff profiadol, cymwys.<br><br>Ar lefel genedlaethol, mae'r metrig hwn yn galluogi barn ar nifer y myfyrwyr sy'n cael eu helpu i gyflawni eu cymhwyster mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. |
| WF/008 | Cyfanswm y staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol | Nid yw'r ddarpariaeth cyfrifoldebau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i chyfyngu i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Erbyn hyn, mae gan lawer o awdurdodau lleol dimau amlasiantaethol sy'n darparu yn erbyn pob agwedd ar ofal a chymorth o'r gwasanaeth IAA ymlaen. Er bod awdurdodau lleol bellach yn cyflogi gweithwyr proffesiynol ar arbenigedd eiledol yn uniongyrchol, mae'r rhan fwyaf yn dal i gael eu cyflogi gan sefydliadau eraill megis iechyd, yr heddlu, y trydydd sector ac ar secondiad yn yr awdurdod lleol.<br><br>Mae'r metrig hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu pa mor dda mae gwasanaethau'n integreiddio er mwyn darparu gwasanaethau di-dor. |
| **2. Demograffeg y Gweithlu** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| <br><br><br><br>WF/009a<br>WF/009b | Cyfanswm y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau oedolion yn eich sefydliad,<br><br>Sy'n ddynion<br><br>Sy'n 16-25 oed<br>Sy'n 26-35 oed | Mae deall demograffeg y gweithlu, gan gynnwys metrigau yn ymwneud ag oedran a rhyw, yn helpu i ddatblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth.<br><br>Gall gweithlu sydd â chyfrannau uchel o bobl iau neu hŷn greu heriau o ran arbenigedd rhannu a chynllunio ar gyfer olyniaeth, staff sy'n nesáu at oedran ymddeol, neu drwy |

| | | |
|---|---|---|
| WF/009c<br>WF/009d<br>WF/009e<br>WF/009f<br>WF/009g<br><br><br><br><br><br>WF/009h<br>WF/009i<br>WF/009j<br>WF/009k<br>WF/009l<br>WF/009m<br>WF/009n<br><br><br><br>WF/009o<br>WF/009p<br>WF/009q<br>WF/009r<br>WF/009s<br>WF/009t<br>WF/009u | Sy’n 36 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 55 oed<br>Sy’n 56 i 65 oed<br>Sydd dros 65 oed<br><br><br><br>Sy’n fenywod<br><br>Sy’n 16-25 oed<br>Sy’n 26-35 oed<br>Sy’n 36 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 55 oed<br>Sy’n 56 i 65 oed<br>Sydd dros 65 oed<br><br>A ddewisodd beidio â diffinio eu rhyw<br><br>Sy’n 16-25 oed<br>Sy’n 26-35 oed<br>Sy’n 36 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 45 oed<br>Sy’n 46 i 55 oed<br>Sy’n 56 i 65 oed<br>Sydd dros 65 oed | ddiffyg profiad.<br><br>Mae’r ystodau oedran wedi’u dewis i adlewyrchu dechrau a diwedd oedran gweithio, i fod yn syml i’w deall ac i roi lefel resymol o fanylder. |
| | Cyfanswm y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau | Mae deall demograffeg y gweithlu, gan gynnwys metrigau yn |

| | | |
|---|---|---|
| | plant yn eich sefydliad,<br><br>Sy’n ddynion | ymwneud ag oedran a rhyw, yn helpu i ddatblygu’r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth.<br><br>Gall gweithlu sydd â chyfrannau uchel o bobl iau neu hŷn greu heriau o ran arbenigedd rhannu a chynllunio ar gyfer olyniaeth, staff sy’n nesáu at oedran ymddeol, neu drwy ddiffyg profiad.<br><br>Mae’r ystodau oedran wedi’u dewis i adlewyrchu dechrau a diwedd oedran gweithio, i fod yn syml i’w deall ac i roi lefel resymol o fanylder. |
| WF/010a | Sy’n 16-25 oed | |
| WF/010b | Sy’n 26-35 oed | |
| WF/010c | Sy’n 36 i 45 oed | |
| WF/010d | Sy’n 46 i 45 oed | |
| WF/010e | Sy’n 46 i 55 oed | |
| WF/010f | Sy’n 56 i 65 oed | |
| WF/010g | Sydd dros 65 oed | |
| | Sy’n fenywod | |
| WF/010h | Sy’n 16-25 oed | |
| WF/010i | Sy’n 26-35 oed | |
| WF/010j | Sy’n 36 i 45 oed | |
| WF/010k | Sy’n 46 i 45 oed | |
| WF/010l | Sy’n 46 i 55 oed | |
| WF/010m | Sy’n 56 i 65 oed | |
| WF/010n | Sydd dros 65 oed | |
| | A ddewisodd beidio â diffinio eu rhyw | |
| WF/010o | Sy’n 16-25 oed | |
| WF/010p | Sy’n 26-35 oed | |
| WF/010q | Sy’n 36 i 45 oed | |
| WF/010r | Sy’n 46 i 45 oed | |

| | | |
|---|---|---|
| WF/010s<br>WF/010t<br>WF/010u | Sy’n 46 i 55 oed<br>Sy’n 56 i 65 oed<br>Sydd dros 65 oed | |
| <br><br><br>WF/011a<br>WF/011b<br>WF/011c<br>WF/011d<br>WF/011e<br><br><br>WF/011f<br>WF/011g<br>WF/011h<br>WF/011i<br>WF/011j<br><br><br>WF/011k<br>WF/011l<br>WF/011m<br>WF/011n<br>WF/011o<br>WF/011p<br>WF/011q | Cyfanswm y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad sy’n diffinio fel:<br><br>Gwyn<br>Gwyn Cymreig<br>Gwyn Prydeinig<br>Gwyn Gwyddelig<br>Gwyn Ewropeaidd<br>Gwyn Arall<br><br>Du<br>Du Cymreig<br>Du Prydeinig<br>Du Affricanaidd<br>Du Caribïaidd<br>Du Arall<br><br>Asiaidd<br>Asiaidd Cymreig<br>Asiaidd Prydeinig<br>Asiaidd Indiaidd<br>Asiaidd Pacistanaidd<br>Asiaidd Tsieineaidd<br>Asiaidd Bangladeshaidd<br>Asiaidd Arall | Er nad oes unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn ymrwymiad sefydliadol rhwng grwpiau ethnig, mae’n bwysig meithrin ym mhrosesau cynllunio’r gweithlu y ddealltwriaeth bod diwylliant, iaith a ffydd yn gwneud cyfraniad pwysig at y broses asesu a chynllunio.<br><br>Mae monitro ethnigrwydd y gweithlu a’i gymharu ag ethnigrwydd defnyddwyr gwasanaethau yn ffordd dda o brofi a yw’r aliniad yn briodol i anghenion y boblogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| <br>WF/011r<br>WF/011s<br>WF/011t<br>WF/011u<br><br><br>WF/011v<br>WF/011w<br>WF/011x | Ethnigrwydd Cymysg/Lluosog<br>Gwyn / Du Caribïaidd<br>Gwyn / Du Affricanaidd<br>Gwyn ac Asiaidd<br>Cymysg Arall<br><br>Grŵp Ethnig Arall<br>Arabaidd<br>Sipsi / Teithiwr<br>Pob grŵp ethnig arall | |
| **3. Iaith** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| <br><br><br><br>WF/012a<br>WF/012b<br>WF/012c<br>WF/012d | Nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad sy'n rhugl (CEFR C1 neu uwch) mewn:<br><br>Saesneg<br>Cymraeg<br>Iaith Ewropeaidd arall<br>Iaith arall nad yw'n iaith Ewropeaidd | Mae ein gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl sy'n gofyn am ein help yn rhan allweddol o'r gwaith o ddarparu gofal a chymorth o safon.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Paragraff 52 yn nodi, ***Rhaid*** *i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer.* |
| **4. Recriwtio a Chadw** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br><br><br>WF/013a<br>WF/013b<br>WF/013c<br>WF/013d<br>WF/013e<br>WF/013f<br>WF/013g<br>WF/013h | Nifer y staff a gyflogwyd yn uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad a adawodd y sefydliad yn ystod y flwyddyn a oedd yn:<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Mae trosiant staff yn anochel mewn unrhyw sefydliad. Bydd monitro'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddiffinio paramedrau normal ar gyfer trosiant. Dylai niferoedd uchel o ymadawiadau annog awdurdodau lleol i ymchwilio a datrys yr achosion gwreiddiol hyn. |
| <br><br>WF/014a<br>WF/014b<br>WF/014c<br>WF/014d<br>WF/014e<br>WF/014f<br>WF/014g<br>WF/014h<br>WF/014i | O'r uchod, y nifer a adawodd:<br><br>I dderbyn swydd newydd y tu allan i'ch sefydliad<br>Oherwydd ymddeoliad<br>Oherwydd dileu swydd<br>Oherwydd camymddwyn difrifol<br>Oherwydd salwch<br>Dros dro (seibiant gyrfa)<br>I ofalu am berson arall<br>Heb ddatgelu'r rheswm dros adael<br>Am reswm arall | Mae'n cymryd llawer iawn o amser ac ymdrech i ddod o hyd i staff newydd, ac mae'r holl ymdrech o ran datblygu sgiliau ac arbenigedd yn gadael gyda'r aelod o staff sy'n gadael.<br><br>Mae sefydlu paramedrau normal yn y metrigau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i asesu pam mae staff yn gadael y sefydliad.<br><br>Mae dadansoddiad pellach o'r manylion y tu ôl i'r metrig hwn yn galluogi rheolwyr i ganfod meysydd lle mae morâl yn isel neu lle gall fod anawsterau strwythurol. Mae llawer o bobl yn gadael i gael dyrchafiad. Mae'r broses naturiol hon yn ddisgwyliedig, ond efallai y bydd rhai aelodau o staff yn gadael oherwydd straen y swydd, trefniadau rheoli gwael neu ddiffyg cymorth.<br><br>Gall cipio'r wybodaeth hon trwy gyfweliadau ymadael cadarn ddarparu'r deallusrwydd sydd ei angen ar awdurdodau lleol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | fynd i'r afael ag unrhyw faterion i greu gweithlu sefydlog.<br><br>Mae deall pam mae pobl yn gadael y sefydliad yn ffactor pwysig i gadw'r gweithlu'n sefydlog, gan alluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all arwain at aelod o staff yn gadael. |
| <br><br><br>WF/015a<br>WF/015b<br>WF/015c<br>WF/015d<br>WF/015e<br>WF/015f<br>WF/015g<br>WF/015h | Nifer y staff a benodwyd i swydd mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad yn ystod y flwyddyn a oedd yn:<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Mae gallu sefydliad i ddenu'r math iawn o bobl i'w weithlu yn hollbwysig i greu gweithlu iach sy'n llai tebygol o ddioddef o lefelau uchel o drosiant staff.<br><br>Yn aml, mae ad-drefnu gwasanaeth yn newid y cymysgedd sgiliau y mae awdurdod lleol yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gynllun strategol. Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn penodi staff sydd â'r sgiliau iawn yn lle'r staff sy'n gadael. |
| <br><br>WF/016a<br>WF/016b<br>WF/016c<br>WF/016d<br>WF/016e | O'r uchod, y nifer a ddaeth o:<br><br>Awdurdod lleol arall<br>Sefydliad trydydd sector<br>Menter breifat neu fasnachol<br>Addysg (ysgol, coleg, prifysgol)<br>Ddim yn gweithio cyn cael eu penodi | Mae deall y farchnad gweithlu yn helpu awdurdodau lleol i dargedu cyfleoedd i ddenu unigolion o safon uchel i'r sefydliad ac i sicrhau, os yn bosibl, fod gan staff ystod o sgiliau a galluoedd sy'n ategu'r gweithlu. |
| | Cyfanswm y staff asiantaeth a gyflogir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad ar 31 Mawrth yn y swyddi canlynol: | O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ddefnyddio staff asiantaeth i lenwi bylchau neu i fynd i'r afael â diffygion recriwtio mewn perthynas â grwpiau staff penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| WF/017a<br>WF/017b<br>WF/017c<br>WF/017d<br>WF/017e<br>WF/017f<br>WF/017g<br>WF/017h | Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Mae gorddibyniaeth ar staff asiantaeth yn dangos bod sefydliad yn ei chael hi'n anodd recriwtio'r staff sydd eu hangen arnynt. Ateb tymor byr yw staff asiantaeth, felly nid ydynt yn cynnig rhyw lawer o ran sefydlogrwydd sefydliadol na'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Nid ydynt yn gynaliadwy yn ariannol yn yr hirdymor chwaith oherwydd eu costau uchel. |
| <br><br><br>WF/018a<br>WF/018b<br>WF/018c<br>WF/018d<br>WF/018e<br>WF/018f<br>WF/018g<br>WF/018h | Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd ar gyfer y swyddi canlynol yn ystod y flwyddyn na lwyddwyd i'w llenwi<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Mae recriwtio yn broses ddrud sy'n cymryd llawer o amser. Bydd y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i asesu effeithiolrwydd eu strategaeth recriwtio os na fyddant yn gallu denu'r bobl sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol. |
| <br><br><br>WF/019a | Cyfanswm y swyddi gwag neu'r swyddi heb eu llenwi yn eich sefydliad ar 31 Mawrth ar gyfer y canlynol<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys | Dylai swyddi heb eu llenwi beri pryder mawr i adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Ar y cyfan, mae sefydliadau da wedi'u dylunio i allu ymdopi â cholli staff am gyfnodau byr, ond yn anaml mae gormod o staff gan awdurdodau lleol. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| WF/019b<br>WF/019c<br>WF/019d<br>WF/019e<br>WF/019f<br>WF/019g | Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | niferoedd uchel o swyddi gwag, naill ai drwy anallu i recriwtio neu drwy atal recriwtio am resymau ariannol yn rhoi mwy o straen ar staff presennol, gan arwain at salwch ac ymddiswyddo.<br><br>Dylai awdurdodau lleol fonitro swyddi gwag yn ofalus, yn enwedig mewn cysylltiad â pherfformiad cyffredinol i sefydlu effaith swyddi gwag ar sefydlogrwydd sefydliadol. |
| **5. Salwch** | | |
| **Cyfeirnod** | **Metrig** | **Pam rydym yn mesur hyn?** |
| <br><br><br><br>WF/020a<br>WF/020b | Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb salwch a gofnodwyd mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad yn ystod y flwyddyn:<br><br>Mewn gwasanaethau oedolion<br>Mewn gwasanaethau plant | Mae salwch yn anochel. Mae absenoldeb yn hynod gostus ac yn anghyfleus iawn i sefydliad, a gall lefelau salwch uchel bwyntio at faterion mwy sylfaenol.<br><br>Yn aml, mae salwch yn gallu bod yn arwydd o broblemau mwy sylweddol yn ei fywyd gwaith neu breifat. Gall y metrig hwn helpu awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant staff yn fwy rhagweithiol trwy ddod â'r materion hyn i'r amlwg yn gynt.<br><br>Mae monitro salwch yn darparu baromedr o iechyd sefydliadol. Yn genedlaethol, bydd yn galluogi sefydliadau i gymharu a dysgu sut maent yn rheoli absenoldeb oherwydd salwch. |
| <br><br>WF/021a<br>WF/021b | O'r rhain, cyfanswm y diwrnodau a ddosbarthwyd fel:<br><br>Salwch tymor byr<br>Salwch hirdymor | Mae monitro a dadansoddi absenoldeb salwch tymor byr a thymor hir yn rhoi dealltwriaeth i sefydliad o iechyd sefydliadol, gan gynnwys y gallu i gyflawni. |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br><br>WF/022a<br>WF/022b<br>WF/022c<br>WF/022d<br>WF/022e<br>WF/022f<br>WF/022g<br>WF/022h | Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb salwch a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o staff<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys<br>Gweithwyr cymorth Gofal Cymdeithasol<br>Therapyddion Galwedigaethol<br>Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys<br>Gweithwyr Gofal Cartref<br>Gweithwyr Gofal Preswyl<br>Gweithwyr Gofal Dydd<br>Gwasanaeth a rheolaeth ganolog | Gall y metrig hwn, o'i ddefnyddio gyda metrigau eraill, ddarparu rhybudd cynnar i sefydliad sy'n darparu gwasanaethau penodol a'i alluogi i gymryd camau i atal anawsterau pellach.<br><br>Yn genedlaethol, mae'r metrig hwn yn galluogi sefydliadau i gymharu sut mae eu lefelau salwch yn amrywio yn ôl proffesiwn. |
| <br><br><br><br>WF/023a<br>WF/023b<br>WF/023c<br>WF/023d<br>WF/023e<br>WF/023f<br>WF/023g<br>WF/023h<br>WF/023i | Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb salwch a gofnodwyd mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich sefydliad am y rhesymau canlynol:<br><br>Straen (yn ymwneud â gwaith)<br>Straen (nad yw'n ymwneud â gwaith)<br>Salwch sylweddol (canser, trawiad ar y galon, strôc ac ati)<br>Gofal ar ôl Llawdriniaeth<br>Iechyd meddwl arall<br>Anaf cefn<br>Anaf aelod<br>Salwch cyffredin (annwyd, y ffliw, bol tost ac ati)<br>Salwch arall | Mae monitro'r rhesymau mae staff yn eu rhoi dros fethu â gweithio yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu atebion a mentrau lleol i fynd i'r afael â llesiant eu sefydliad e.e. mae straen mawr yn ymwneud â gwaith yn arwydd o broblem y gall y sefydliad fynd i'r afael â hi.<br><br>Yn genedlaethol, mae'r metrig hwn yn rhoi mwy o ddeallusrwydd i Lywodraeth Cymru fel y gall helpu i gynnig atebion. |